

ECO'R WYDDFA

Rhif 35

CHWEFROR 1979

Pris: 12c

Canolfan Amgylchedd Llanberis

Ffrwyth ymchwil Dafydd Whiteside Thomas

UNWAITH eto mae Canolfan Amgylchedd Llanberis wedi codi'i phen fel rhyw Anghenfil Loch Padarnaid na wya'r fawr neb o'r bobl leol y nesaf peth i ddim amdano.

Daethpwyd â'r hanes i sylw darllenwyr yr *Eco* yn Rhif 2, Ebrill 1976. Adroddwyd fod rhai cynghorwyr lleol am ohirio cynllun Canolfan Amgylchedd ar ôl bod yn bresennol mewn cyfarfod yng Nghaernarfon ar Fawrth 20, 1976. Gofynnwyd am ohirio'r cynllun er mwyn medru trefnu cyfarfod brys i drafod syniadau a fyddai o fudd i'r holl ardal. Yn yr *Eco*, Rhif 4, Mehefin 1976, neilltuwyd y ddalen flaen i ddwy farn wahanol ar y Ganolfan Amgylchedd, ynghyd â rhai o'r cynlluniau.

Hoffwn wneud y sylwadau canlynol:

a) Ai fel iawndal i'r ardal am yr aflonyddwch oherwydd gwaith Dinorwig y cynigiwyd y £500,000 gan y BCCT, ynteu a oedd rheswm arall? Dyfynnaf o lythyr a dderbyniais gan Ysgrifennydd a Chyfreithiwr y BCCT: "at the time when the Bill relating to Dinorwig Power Station was being considered by Parliament, it was proposed, and the CEBG agreed, that the opportunity should be taken to establish an interpretive centre for the whole of the Snowdonia complex."

Mae'n amlwg felly, mai canolfan i Eryri oedd y bwriad sylfaenol, ac nad oedd gan ardal *Eco'r Wyddfa*

hawliau ariannol ynglŷn â'r 'iawndal' hwn. Afraid felly yw sôn am gymorth gan y BCCT tuag at neuadd yn y pentref hwn neu ganolfan yn y pentref arall.

b) Yn erthygl gefnogol y Dr. Tom Pritchard i'r Ganolfan Amgylchedd (*Eco'r Wyddfa*, Rhif 4), mae'n nodi ei bod yn cynnwys tri phwrpas, ond; sylwer ar y blaenoriaethau:

"yn gyntaf, amgueddfa ac arddangosfa..." prif amcan y Ganolfan felly, fydd paratoi ar gyfer ymwelwyr, ac yn naturiol, eu godro o'u harian i goffrau'r Amgueddfa Genedlaethol a'r BCCT.

"yn ail, canolfan adnoddau addysgol ar gyfer plant yr ardal a Gwynedd gyfan". Cymeradwy iawn. Er hynny, yr agwedd ymweld sy'n cael ei arddangos — fel yn achos yr ymwelwyr.

"yn drydydd, Canolfan Gymdeithasol amgenach i Lanberis a'r pentrefi cyfagos". Ystyr 'amgenach' yn ôl y Geiriadur Mawr, yw 'arall' (oes angen Canolfan arall yn Llanberis?) 'gwahanol' (yn sicr, mae'n wahanol!) a 'gwell' (tybed? Oherwydd yng ngeiriau'r Dr. Tom Pritchard, "bydd Llanberis yn cael defnydd o neuadd, ystafell ddarlith a llyfrgell". Mae neuadd a llyfrgell ar gael yno eisoes; felly y gwelliant fydd ystafell ddarlith. Oes raid cael ystafell arbennig i hynny?)

c) Noder fod y Ganolfan ar gael, nid yn unig i'w defnyddio gan

drigolion Llanberis, ond gan y pentrefi cyfagos hefyd. Golyga hyn, mae'n debyg, y defnydd o "neuadd, ystafell ddarlith a llyfrgell". Y defnydd mwyaf y gellid ei wneud o'r rhain fyddai cynnal gwahanol weithgareddau'n y neuadd. O edrych ar y cynlluniau a ymddangosodd yn yr *Eco* (Mehefin 1976) ymddengys mai bychan yw'r neuadd o'i chymharu â gweddill yr adeilad, ac erbyn hyn, wrth gwrs, mae llawer yn gwybod na cheir cynnal unrhyw fath o chwaraeon yn yr adeilad. Dyfynnaf unwaith eto o lythyr Ysgrifennydd a Chyfreithiwr y BCCT:

"The Museum have always regarded the provision of facilities for the local community as an integral part of the project, and the building will contain a 'general purpose' hall for their use. The Museum have recently informed the Board that some recreational activities such as games, are not compatible with other areas of the building which are being designed to accommodate the valuable

paintings and exhibits which will be on display."

Hynny yw, mae chwarae badminton (dyweder), mewn un ystafell yn achosi perygl dirfawr i ddarlun gwerthfawr mewn ystafell arall! Â'r llythyr ymlaen:

"Accordingly the Museum have indicated their willingness to make provision within the scheme for an extension to the existing Community Hall in Llanberis to provide for activities that cannot be carried out in the Centre."

Mae'r ddarpariaeth chwaraeon felly, i fod ynghlwm wrth Ganolfan Cymdeithasol Llanberis, a chan mai Llanberis sy'n rheoli honno, nid yw'n deg disgwyl iddynt gysidro anghenion pentrefi cyfagos wrth ddelio â'u Canolfan Gymdeithasol eu hunain. Dyna ddiwedd felly ar ddarpariaeth y BCCT/Amgueddfa Genedlaethol gogyfer a phentrefi ar wahân i Lanberis.

Trueni fod Sherlock Holmes a Hercule Poirot wedi darfod a bod. Mae yma achos a fyddai wrth fodd y ddau wrth geisio datrys dirgelwch Anghenfil Loch Padarn!

Bachgen o'r diwedd!!

Emyr Llewelyn Griffith,
Enillydd y Gadair,
Eisteddfod Ysgol Brynrefail.



ELENI am y tro cyntaf ers 1973 bachgen oedd y bardd buddugol yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Ffugenw'r bardd oedd Isoel, sef Emyr Llywelyn Griffith o dŷ Elidir, ac mae Emyr yn byw yn Cynfi, Deiniolen.

Mae Emyr ar ei flwyddyn gyntaf yn y chweched dosbarth, yn astudio Cymraeg, Ysgythur a Hanes. Mae'n gobeithio mynd i'r coleg i astudio Cymraeg ar ôl gadael yr ysgol, ac mae'n rhestru R. Williams Parry, Gwenallt a Waldo Williams fel ei hoff feirdd. Daeth Emyr yn gydradd ail yn gystadleuaeth y llynedd hefyd. Y dasg eleni oedd ysgrifennu cerdd ar 'Y Gaeaf' a darn o ryddiaith ar y teitl 'Gelynlion'.

Yn ei beirniadaeth dywedodd y beirniad, Mrs Nona Breeze, fod Emyr yn llawn deilyngu'r wobr, gan fod ei waith, yn ogystal â bod yn raenus a chywir, yn dangos dychymyg.

Yn ei gerdd ar 'Y Gaeaf' thema Emyr

oedd cymharu'r gaeaf i feddwl hen bobl. Dywedodd fod eu hatgofion fel pe baent o dan blanced o eira gaeafol, a'u bod yn ei chael hi'n galed i gofio'r hen amser oherwydd eu bod yng ngaeaf eu bywyd.

Yn ei stori yr oedd Emyr yn ymdrin â hanes bachgen yn ei arddedau yn wynebu problem fawr — sef amau Duw. Mae'n sôn am yr elyniaeth rhwng y bachgen a gweinidog newydd sy'n dod i'r pentref. Y mae'r bachgen yn cywilyddio ac yn ofni cyffesu ei amheuaon oherwydd ei fod yn poeni y byddai pobl yn siarad amdano.

Cewch weld y gerdd a'r stori fuddugol yn yr *Eco* mis nesaf. Da iawn Emyr!



Dengys y llun fod y gwaith clirio ar gyfer gosod seiliau'r ganolfan yn cael ei wneud.

ECO'R WYDDFA

RHIF 34 CHWEIFROR 1979

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Nant Peris

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFF-
REDINOL:** Twrog Jones, 23 Glan-
fynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Arwel
Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug (C'fon
3719)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisrwaun.

GOLYGYDD CHWARAEON: Dafydd
Evans, Sycharth, Penisrwaun.

**TREFNYDD NEWYDDION
YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis
(Llanberis 220)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant. (Waunfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llan-
rug (C'fon 4669)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug.

TREFNYDD GWERTHIANT: Selwyn
Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 3577)

FRYSORYDD: Gwyn Oliver Jones,
58 Pentre Helen, Deiniolen.

TREFNYDD GWERTHIANT POST :
Mrs. E. Evans, "Lloc," Llanrug.

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r
bobl i gysylltu a nhw yn eich ardaloedd

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth,
(Portdinorwic 726)

BETWS GARMON: Mrs. Brenda Jones,
Bryn Tegid (Waunfawr 294)

BRYNREFAIL: D.G.Ellis, Gweledfa,
Brynrefail (Padarn 223)

GEUNANT: Ifan Parry, Morwel (Waun-
fawr 321)

CWM-Y-GLO: Mr. Dafydd Price,
Ty Capel, Cwm-y-glo.

DEINIOLLEN: Meirion Jones, Minafon,
Clwt-y-bont. (Llanberis 452).

DINORWIG: O.R.Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 671)

LLANBERIS: Mrs. Siân Thomas,
Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs. Eirlys Pierce, Swyn
yr Awel, Llanrug. (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Leslie Larsen,
Llygad yr Haul, (Llanberis 533)

TAN Y COED: Miss Megan Humph-
reys, 4 Tai Tan y Coed (W'fawr 355)

DIOLCH

Diolch i'r canlynol am eu cyf-
raniadau hael tuag at gostau cyn-
hyrchu'r Eco:

£2: Mr a Mrs T.H. Williams, 23
Heol Elinor, Caernarfon; Mrs M.
Buck, 4 Maes Derlwyn, Llanberis;
y Parch. Ganon R.D. Roberts,
Llwyngwrl, Meirionnydd.

£1: Mrs Maggie Jones, 7 Hafod
Olau, Deiniolen; Mr Goronwy
Lewis, 13 Stryd Ceunant,
Llanberis.

DIRGELWCH MARGED

YN DILYN ei herthyglau yn yr Eco ar 'Farged Uch Ifan' daeth galwad ar i Mrs Mary Lloyd Williams fynd i siarad ar 'Helo Bobol' i sôn am ffrwyth ei hymchwil. Rhoddodd Mrs Williams adroddiad hynod o ddiddorol ar y rhaglen. Mae'n deg dweud hefyd fod mwy o ymateb ysgrifenedig yn dilyn erthyglau Mary Lloyd Williams nag unrhyw beth arall a gyhoeddwn yn yr Eco.

Fel y dengys y llythyrau a ganlyn nid yw saga Marged Fwyn Uch Ifan wedi dod i ben. Mae'r ymateb yn dal i bentyrru.

Hoffwn dynnu eich sylw at un llythyr sef eiddo G. Roberts. Gyrrodd Mr Roberts bentwr o ddeunydd (ffotostat) i gadarnhau fod sail cwbl gadarn i ffrwyth ei ymchwil. Er mai'r ffeithiau moel a gewch yn ei lythyr gallaf eich sicrhau fod y ffeithiau yn gwyir a bod llawer mwy o ymchwil wedi ei wneud ganddo.

Ond os gwyddoch chwi yn wahanol — gadewch i ni wybod.

—Gol.

Annwyl Olygydd,

Diddorol iawn oedd y tri llythyr am Farged Uch Ifan yn rhifyn diwethaf o Eco'r Wyddfa.

Mi hoffwn gael ychwanegu ychydig o ffeithiau i brofi mai yn Penllyn yr hwn oedd ar gwr isaf Llyn Padarn y trigai Marged Uch Ifan (Brenhines y Llynnoedd); fe 'roedd yn briod i Richard Morris y telynor a bod y ddau wedi eu claddu ym mynwent Llanddeiniolen.

Llyfr treth tir Llanddeiniolen
1770 hyd 1800

Penllyn 1770, Richard Morris
hyd 1784

Penllyn 1785 Margaret Uchifan
hyd 1792

Cofrestr Eglwys Llanddeiniolen
24th April 1785, buried Richard
Morris of Penllyn (Harper)
24 Jan. 1793 buried Margaret

Evans of Penllyn widow age 91

Mae'n wir bod bwthyn o'r enw Penllyn ar gwr uchaf Llyn Peris, ond 'does dim yn cyfeirio bod Marged Uch Ifan erioed wedi byw yn y fan honno. Dyma restr o'r bobol a fu yn byw yn y tŷ yn amser Marged:

1736 William Befan, 1759 claddu
Rowland David Penllyn
1766 John David Penllyn (Church
Warden) 1768 Bedyddio merch i
Henry Griffith Penllyn. Mary
Abraham oedd y drethdalwr ar
Penllyn yn 1773, Rev. John
Morgan yn 1780, Mr Linch Bridge
yn 1788 a Thomas Jones yn 1790.

Yr eiddoch yn gywir,
G. Roberts.

Valhalla,
Mynydd Llandegai,
Gwynedd.

Annwyl Syr,

Gyda diddordeb y darllenais y llythyrau yn rhoddi hanes Marged Uch Ifan. Cyfieithais innau ychydig o sylwadau allan o 'Social Life in Wales XVIIth & XVIIIth Centuries', a all fod o ddiddordeb i'ch darllenwyr.

Dyma a ddywed Pennant am y Gymraes gydnerth a drigai yn Nyffryn Llanberis:

"Yn ymyl y pen hwn i'r llyn trig person enwog, y teimlais yn siomedig iawn o beidio â'i chanfod gartref — sef Marged Uch Ifan (Marged, merch Ifan) o Benllyn, yr engraifft olaf o nerth ac

ysbryd tua deg a phedwar ugain. Yr oedd y ferch anghyffredin hon yn arbennig am hela, saethu a physgota — yr oreu yn ei chyfnod. Cadwai ddwsin o leiaf o gŵn — daeargwn, bytheiaid a spanieliaid — i gyd yn rhai ardderchog. Lladdodd fwy o lwynogod mewn blwyddyn nag a laddodd yr helwyr eraill mewn deg; rhwyfai'n gadarn, a hi oedd brenhines y llyn. Chwaraeai'r ffidil yn gampus, a gwyddai'r hen fiwsig i gyd. Nid esgeulusai chwaith ei dawn beirianyddol; 'roedd yn saer da, a phan yn ddeg a thrigain oed, hi oedd yr ymaflydd codwm oreu yn y wlad, ac ychydig iawn o ddynion ieuanc a fentra'i ymaflydd codwm â hi. Yr oedd Marged hefyd yn of, crydd, adeiladydd cychod a gwneuthurydd telynu. Pedolai ei cheffylau ei hunan; gwnâi ei hesgidiau, ac adeiladau ei chychod tra o dan gytundeb i gario mwyn copr i lawr y llynnoedd".

Yr eiddoch yn gywir,
Mary Morton

Syr,

Tueddaf i gytuno â J.W. Elis, Perisfab, sydd fel finau yn un o ddisgynyddion yr hen Siôn Closs, mai Pen Llyn Stamps Nant Peris oedd cartref y Farged Uch Ifan enwog oedd yn cario copr a llechi ar hyd llynnoedd Llanberis. Gwn am lawer o gyfeiriadau at y Pen Llyn yna. Mae'n debyg na ddaeth y Pen Llyn presennol yng ngwaelod Llyn Padarn i lawer o sylw nes adeiladwyd y ffordd newydd i Lanberis ac y codwyd y bont rhwng plwyfi Llanrug a Llanddeiniolen.

Gyda llaw William Williams, Bod y Gof (nid Robert Williams, Bob Go) oedd awdur 'Hynafiaethau Plwyf Llanberis' a gyhoeddwyd yn 1892. Rhy William Williams 'Ceunant Coch' fel enw ei gartref. 'Roeddwn yn adnabod ei ferch yn dda. 'Roedd yn wraig i Gofrest-rydd Marwolaethau a Phriodasau yn Llanfairfechan pan oeddwn i yno, a byddwn yn cael aml i sgwrs â hi am ei thad, ei lyfr, a'r ardal. Bu farw rhyw flwyddyn yn ôl mewn gwith o oedran.

Fel hyn mae William Williams ar dudalen 75 o'i lyfr yn dweud stori y cyfeiria fy nghyfaill y Parch.

Eric Owen ati am Marged ac Assheton Smith: "Pan yr oedd Mr Smith o'r Faenol yn un o'm cychod ar Lyn Padarn, a Marged yn rhwyfo, gafaelodd y Boneddwr ynddi er cael ychydig ddigrifwch diniwed ond gyda sydynrwydd y fellten cafodd ei hun, er ei ddychryn mawr, yng ngwaelod y llyn; a phan ddaeth i'r wyneb crefai yn daer am ei godi yn ôl i'r cwch tra y dywedai Marged wrtho: "Na chei heb iti roddi hanner gini imi". Gan fod y tylerau mor esmwyth, buan y cytunwyd, a phe gofynasai am hanner ei ystad diau mai parod a fuasai i'w haddaw yn ddiymdroi."

Mae un peth ynglŷn â chario y copr a'r llechi ar hyd y llynnoedd wedi peri penbleth i mi ar hyd fy oes — sef sut oedd y cychod trymion yma yn gallu mynd o un llyn i'r llall. Mae'r dŵr yn Bont y Bala rhy fas (neu 'roedd cyn dechrau y gwaith trydan dŵr) hyd yn oed i gwch gwag allu mynd trwyddo. Mae dau ateb yn bosibl. 'Roedd llynnoedd Padarn, Peris, a'r afon rhyngddynt, cyn datblygiad y chwarel yn cyrraedd i odre'r mynydd ac efallai bod y dŵr yn y fan honno digon twfn i nofio cychod trwm. Tua chanol y ganrif y culhawyd Llyn Peris a'r afon gyda rwbwl i wneud y ffordd haearn o Hafod Owen i'r Gilfach Ddu, ac y cymerwyd aceri o Lyn Padarn i wneud gwastadedd Gilfach Ddu i godi'r ffowndri a'r adeiladau eraill. Cyn hynny, trwy'r twnnel sydd o'r Muriau i Gilfach Ddu fyddai'r llechi yn mynd — ceffylau yn tynnu'r wagenni, a hynny yn syth o'r Muriau i'r Felinheli. Ni chafwyd injian i'w tynnu tan Awst 22, 1848. Yr ail bosibilrwydd ydyw bod dolennau ar y cychod — mae dolennau ar y cwch a godwyd o'r llyn y llynedd — a bod ceffylau yn cael eu defnyddio i lusgo'r cychod trwy'r dŵr bas. Oes rhywun all daflu rhyw oleuni ar y mater?

H. Thomas, Llannor.

STORFA

Mace

**O.R. & M.
PARRY**

**Sgwâr
Llanrug**

Caernarfon 2790

Perchnogion newydd,
ond gwasanaeth a chroeso
cystal ag erioed!

Y Ffordd Newydd

gan David W. Thomas

Diddorol fyddai cael gwybod yr ateb i'r cwestiwn: "Oedd yna ddwy Farged?" (Eco'r Wyddfa, Chwefror '79). Os mai gwraig Michael Jones, Llwyncoed oedd, yna fe ddylai fod degau o'i disgynyddion yn byw yn yr ardal heddiw. Fel y nodir eisoes, ganed i Michael Jones a Marged Uch Ifan bump o blant. Mae cofnodion priodas y tri mab ar gael:

Ganed John Michael (y mab hynaf) yn 1749, a phriododd a Sarah... Yr oedd iddynt chwech o blant, sef Margaret (1781), Elinor (1783), John (1786), Evan (1788), Michael (1791) ac Ann (1794).

Priododd Evan Jones (ail fab John Michael) a Margaret Evans, a ganed merch iddynt yn 1815, sef Catherine Jones - gorwyres i Farged Uch Ifan.

Ganed Evan Michael (yr ail fab) yn 1752, a phriododd ag Elinor... Yr oedd iddynt chwech o blant, sef Anna (1777), Michael (1799 - marw o fewn blwyddyn), John (1780-82), Owen (1782 - marw o fewn blwyddyn), Owen (1784), a Jane (1787). Bu Evan Michael farw yn 1788.

Ganed Owen Michael (y trydydd mab) yn 1754, a phriododd a Catherine (yr hon a fu farw yn 1806 ar ol ei thafllu oddi ar ei cheffyl). Yr oedd iddynt hwythau hefyd chwech o blant, sef: William (1781), Michael (1784), Owen (1787), John (1792), Margaret (1795) ac Ann (1797).

Priododd Owen Owen (trydydd mab Owen Michael) ag Anne ... a ganed merch iddynt yn 1818, sef Catherine Owen - gorwyres i Farged Uch Ifan.

A barnu oddi wrth dyddiadau geni y ddwy Catherine (1815 ac 1818), yna gallant fod yn hen nain i rywrai sy'n fyw heddiw. Sgwn i?

Tua'r flwyddyn 1812 dechreuwyd adeiladu ffordd drol newydd o Lanrug i Lanberis dros y Bwlch Gwynog. Yr oedd yr hen lwybr ceffyl cyn hyn yn "dangerous zigzag or serpentine kind of a horse path, in many places very dangerous, and no where wide enough for two horses to pass each other." (nodyn yng Nghofrestr Plwyf Llanrug).

Rhoes Thomas Wright, perchen chwarel Glynrhonwy, £40 i Blwyf Llanrug i helpu gyda'r gost o adeiladu'r ffordd; a rhoddodd Assheton Smith yntau ddau swm o arian (£10 a £5) i'r Parch. Peter Bailey Williams tuag at y gost. Er hyn yr oedd y gost o adeiladu'r ffordd yn disgyn ar blwyfolion Llanrug.

Tua'r un cyfnod, adeiladwyd ffordd o'r Tŷ Du ym mhlwyf

Llanberis hyd at y Dafarn Newydd (dechreuwyd tua 1813, a diweddwyd tua 1815). Thomas Wright fu'n gyfrifol am dreuliau'r ffordd hon hefyd, ac yn ddiweddarach, ymestynnwyd y ffordd o'r Dafarn Newydd i Fwlch Safn y Ci ger Castell Dolbadarn.

Tua'r flwyddyn 1813, adeiladwyd pont newydd dros afon Hwch yn lle'r hen bont ceffyl a elwid yn Bont Gerniach.

Yn 1816 gallodd y Parch. P. Bailey Williams bwyso ar Ustus-iaid y Sir i roi gorchymyn i adeiladu pont newydd dros afon Seiont: "about 200 yards above Pont Fawr just above the end of the Upper Lake, as the causeway near a place called Corn Du was of late become very dangerous..." Wrth ddadlau'r angen am bont newydd yma, mae'r Parch. P. Bailey Williams yn nodi fod Janet, merch i Glerc Plwyf Llanberis wedi boddi yma ar Dachwedd 2il 1808; a bod gwr arall o'r enw Owen Evan wedi cael dihangfa gyfng tua'r un cyfnod.

Cynllunwyd y bont newydd dros afon Gerniach (afon Hwch mae'n debyg) gan Mr Defford o Landygai. Gŵr o'r enw Evan Owen o Lwyn Onn a'i hadeiladodd ac ef hefyd a adeiladodd fwrthyn yng Nglan y Bala a'r Dafarn Newydd i Thomas Wright. Ceir y nodyn hwn amdano: "he was a good mason, but too fond of drink".

Cynlluniwyd y bont arall uwchlaw Pont Fawr a Corn Du gan Mr Jones o Fangor, a'r adeiladydd oedd William Evans o Gilfechydd, Betws Garmon. Cafodd y bont hon ei gorffen tua Rhagfyr 1816.

Eto yng nghofrestr Plwyf Llanrug, ceir un frawddeg arall i nodi hanes adeiladu ffordd: "the new cart road to Llanberis from Bwlch Safn y Ci and Llech y Delyn was finished in 1820".

Mae'r cyfeiriadau at y Bont Fawr, Corn Du, Llech y Delyn ac yn y blaen, yn ddieithr i mi; ond mae'n amlwg eu bod ym mhlwyf Llanberis, o bosibl, rhywle rhwng Llanberis a Nant Peris. Byddai'n ddiddorol cael gwybod lle'n hollol yr oeddynt.

CANLYNIAD YR YMCHWILIADAU

Yn ddios mae cryn ymchwilio wedi ei wneud i hanes Marged gan sawl person yn yr ardal. Diolch iddynt am eu tystiolaethau. Gallwn fod yn sicr erbyn hyn fod yna o leiaf dair Farged.

Y cwestiwn sy'n aros yw: Pa run oedd 'Arwres Penllyn' neu'r

ENILLWYR EISTEDDFOD BRYNREFAIL



SGETS DOSBARTH 1, 2 a 3

EILIAN Chwith i'r Dde: Cefn: Sonia Desmer, Noel Jordan, Sian Gibson, Hefin Pritchard. Blaen: Barry Williams Martin Jones.



ARWEINYDDION Y CORAU BUDDUGOL

Chwith i'r Dde: Nia Bryan Jones - Cor 4 llais; Heather Lynne Roberts - Cor 2 lais; Eira Wynne Jones - Cor Adrodd; Nia Glyn Parry - Cor Adrodd 2il laith; Iola Llywelyn Griffith - Cor Cerdd Dant.



SGETS DOSBARTH 4, 5 a 6

ERYRI: Cefn: Rhian C. Parry, Ellis Davies. Blaen: Julie Leatherbarrow, Christopher Lloyd. Yn absennol: Gareth Roberts, Euron Griffith.



CAPTEINIAID ELIDIR -Y Tŷ BUDDUGOL

Dewi Wyn Williams, Annette Bryn Roberts.

BETWS GARMON

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL - Fel y gŵyr unrhyw un a gafodd y fraint o fwyta yng Nghastell Cidwm dystio iddynt gael gwledd ardderchog.

Ond 'roedd Chwefror 6 yn noson wedi ei neilltuo'n arbennig ar gyfer cronfa leol o'r Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir yng Nghaer-narfon fis Awst. Noson o Gaws a Gwin oedd hon, wedi ei darparu a'i rhoi trwy garedigrwydd Mr a Mrs P. Davies, gyda'r elw i gyd yn mynd i'r gronfa leol. 'Roedd yr ymgais yn llwydd-iannus dros ben, a dymuna aelodau'r pwyllgor ddatgan eu diolch yn fawr

iawn i Mr a Mrs Davies a'r teulu am roddi o'u hamser prin a phrysur i ddarparu'r noson. Hefyd dymunent ddiolch yn fawr i bawb a'u cefnogodd.

Diolch i Gwmni 'Land and Marine' am eu cyfraniad o £10 tuag at y gronfa leol.

O'R YSBYTY - Dymunir gwellhad buan i Mrs Glenys Williams, Ty'n Weirglodd, wedi triniaeth lawfeddygol yn ddiweddar.

CROESO ADRE' - i Mrs C. Pritchard ar ol ei harhosiad gyda'i merch, Alice a'r teulu yn y de, am rai misoedd.

enwog Farged Fwyn Uch Ifan?

- Ai
- 1) Margaret Maurice a gladdwyd yn Nant Peris yn y flwyddyn 1786 oedd hi?
 - 2) Margaret Evans o Frynrefail a gladdwyd yn Llanddeiniolen yn y flwyddyn 1793 oedd hi?

Ynteu:

- 3) Marged, gwraig Michael Jones, Brynrefail a gladdwyd yn Llanrug yn y flwyddyn 1805 oedd hi?

Gallwn fod yn sicr o un peth - fod mwy o ffeithiau am Farged Fwyn Uch Ifan wedi dod i'r amlwg drwy Eco'r Wyddfa nag a ddaeth erioed. Ond deil y cwestiwn i aros o hyd: Pa run o'r dair oedd hi?

- Gol.

E. & E.M. GREEN

SIOP GRON

A SWYDDFA'R POST


PENISARWAUN

Ffôn: PADARN 272

NWYDDAU GROSER
FFRWYTHAU A LLYSIAU
FFRES

Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



MAE hi'n dymor eisteddfota arna'i eto. Rhwng 'nawr a chanol mis Mai, caf y fraint, os byw ac iach, o feirniadu mewn pymtheg o eisteddfodau yng Ngwynedd a Dyfed. Dechreuais ar y daith eisteddfodol yn Nhrawsfynydd ddechrau'r mis 'ma.

Wyddwn i 'rioed o'r blaen fod 'na neuadd mor hardd yn llechu yn un o strydoedd cefn y Traws. Cafwydd steddffod ragorol yno — fel y gellid disgwyl yn un o bentrefi enwoca' Cymru. Llawenydd oedd deall hefyd nad oes problem iaith yn y Traws er fod 'temel yr oes atomig' wedi ei chodi yno ers blynyddoedd bellach.

Edwin Brand, yr Almaenwr a ddysgodd Gymraeg, ac a feistrolodd y cyganeddion yn ogystal, a gipiodd y wobwr am yr englyn, ac fe rannodd y wobwr gyntaf am yr englyn digri hefyd. Mae Edwin yn athro yn ysgol gynradd Trawsfynydd. Dyma'r englyn i'r 'Ddafad':

DAFAD

Rhodia rhwng grug a rhedyn, — a'r mynydd

Oer mawnog am weyrn,
O aea' gwyllt cawn oen gwyn
O'r waethaf borfa frethyn.

Dyma'i englyn digri ar y testun pigog 'Corn':

CORN

Ar y bys daeth trwy bwyso — a gwasga
Esgid fel feis arno,
Ing hir a hopian o 'ngho,
Rhy waniad fel corn rheino.

Yn gyd-fuddugol 'roedd yr englyn hwn gan Fred Jones o Fronaber:

CORN

Peth pigog yw i hogan, — y diafol
A dyfa drwy'i hogan,
Anghynnes i lodes lân,
Cebyst ar waelod coban.

Oherwydd gwaeledd Mrs Jennie Eirian Davies, cefais wahoddiad annisgwyl i Eisteddfod y Ffôr, ger Pwllheli, hefyd. (Gyda llaw, llongyfarchion i Jennie ar lwyddiant y *Faner* o dan ei golygyddiaeth. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddi, a boed i'w *Baner* chwifio tros Gymru am flynyddoedd.)

Yn anffodus oherwydd y tywydd mawr, bu'n rhaid gohirio Steddffod y Ffôr tan Mawrth 23/24. Cafwyd cynhyrchion llenyddol o safon uchel yno, yn enwedig cystadleuaeth yr englyn ar y testun 'Tafod'.

Chwi gofiwch i mi osod cystadleuaeth llinell goll ychydig cyn y Nadolig, ac i'r ymateb fod braidd yn siomedig ar y cychwyn. Fodd bynnag, diolch yn fawr i'r rhai ohonoch a anfonodd linellau, — fe ddaeth pentwr yn y diwedd.

Y pennill i'w orffen oedd, —

Prif ddymuniad Modryb Mari
Yw cael gwyliau yn Hawaii,
Ond dymuniad Huws y Person

Dyma rai o'r cynigion:

Ennill coron Steddffod C'narfon

(amryw am weld Huws yn ennill y goron).

Gwyliau haf ymysg noethlymunion meddai Begw.

Hoffais hon gan gyfaill o Ddeiniolen, a chan wraig o Gaernarfon:

Yw cael bod yn Huws y Canon

Cysgu'n dawel am un noson (Garmon)

Heddwch llwyr i Ogledd 'Werddon,
meddai gwraig o Rostryfan.

Setlo'r streic, mae'r ffordd fel sebon.

(un o Landyrnog)

Fa'i mis mel a'r feinwen wirion
(Hwla la)

Yw cael tyrfa i'r oedfaon
(Un o Benisarwaun)

Ac meddai gwraig o Lanberis:

Yw mynd i'r Nefoedd am 'excursion'

Digon o amrywiaeth yntê! Ond hon yw'r orau gen i:

Prif ddymuniad Modryb Mari
Yw cael gwyliau yn Hawaii
Ond dymuniad Huws y Person
Yw cael Modryb Mari am noson.

'Does 'na ddim enw na ffug-enw ar y cynnig.

Ychydig o eira a gawsom ni 'leni i'w gymharu â llefydd eraill yn y wlad 'ma, ond mae'n amlwg i Dafydd Whiteside Thomas gael pleser o sylu ar y gynfas wen o'r ffenest llofft. Caiff o a'r eira y gair ola' am y tro:

EIRA

Fe'th welaf di o ffenest llofft fy ngharchar gwyn
Yn taenu'th gwrlid trwchus dros y ddaear syn;

Yn gwisgo gwynion, hirion fenyg
Am fysedd esgrynog y llwyni coed helyg,

A glynu'n oer fel llanw clear
Hyd dalcen sguor Pen y Gaer;

Dwy wylan benddu yn sgrechian uwchben
Fel dwy hances lwyd yng ngwynder y nen;

A dacw iâr ddŵr yn hercian ei phen
Wrth geisio'i chymar ar y dorlan wen.

Lluwchia dy ganfas a'th aeafol wynt
Cans gwn fod y gwanwyn yntau ar ei hynt.

Dafydd Wh. Thomas.

Hwyl fawr,
Selwyn.

CEUNANT

CYDYMDEIMLAD — Drwg gennym gofnodi marwolaeth Mr Harri Jones, Tir Glas ar Ionawr 28. Bu'r angladd ym mynwent Llanrug.

Cydymdeimlwn â'i dair merch a'r

teulu i gyd.

O'R YSBYTY — Balch oeddym o ddeall bod Mrs J. Jones, Tŷ Uchaf wedi dychwelyd adref o'r ysbyty ym Mangor. Dymunwn adferiad buan iddi.

CWM-Y-GLO

DIOLCH — Mae Mrs Gwyneth Chick yn rhoi'r gorau i'w swydd fel Gohebydd yr *Eco* yng Nghwm-y-glo gyda'r rhifyn hwn o'r papur. Hoffwn, fel golygydd newyddion, ddiolch yn fawr iawn i Mrs Chick am ei llafur difflino a'i chymorth aruthrol yn y gwaith o gasglu newyddion y Cwm o fis i fis. Cofiwch! — nid dyma ddiwedd ei chysylltiad â'r papur o bell ffordd, gan ei bod hi'n bwriadu cyfrannu erthyglau ar hanes y Cwm a'r ardal gyfagos. Diolch yn fawr unwaith eto i Mrs Chick.

CROESO — Wrth ddiolch i Mrs Chick dyma gyfle i groesawu Gohebydd newydd yr *Eco* yn y Cwm, sef Mr Dafydd Price, Tŷ Capel. Bydd Mr Price yn gofalu am golofn Cwm-y-glo o fis nesaf ymlaen. Hoffwn ddiolch yn fawr iddo am ei barodrwydd i dderbyn y swydd. Hoffwn apelio hefyd am i bawb yn y Cwm gefnogi Mr Price yn y gwaith.

MARWOLAETH — Ar Chwefror 9, yn Ysbyty Bryn Seiont, bu farw Mr A.E. Dingle, Tŷ Draw. Cartrefodd yma ar ei ymdeoliad fel prifathro yn Lloegr, a threuliodd flynyddoedd hapus iawn yn cynllunio a chario allan welliannau i'w fwrthyn bach. Cefnogodd lawer o weithgarwch y pentref, a bu'n hynod garedig yn gadael i'r plant chwarae ar ddarn o'i dir, cyn bodolaeth y cae chwarae. Bu'n wael yn yr ysbyty am bum mlynedd, a chollassom ei gyfarchiad siroli a'i sgwrs ddiddorol. Derbyniad ei ddwy chwaer a'i frawd-yng-nghyfraith ein cydymdeimlad

dwysaf.

CYDYMDEIMLO — Ym marwolaeth y Parch. D. Wynne Edwards, collwyd gŵr o bersonoliaeth annwyl dros ben, ac erys llawer o atgofion melys amdano. Cydymdeimlwn yn fawr iawn â'i briod, ac â'i berthnasau yn y Cwm, sef teulu y diweddar Mr a Mrs Hugh Rowlands, 4 Dolafon a theulu Gwylfa.

BRYSIWCH WELLA — Dyna ein dymuniad i Miss O. Parry Jones, Gwylfa, Miss Warder, Uwchlaw'r Ffynnon a Miss K. Jones, Meillionen. Mae amryw eraill heb fod yn eu cynefin iechyd yn ddiweddar, yr un yw ein dymuniad iddynt i gyd.

Da gweld Mr Ifor Evans, Arosfa wedi dod dros ei godwm cystal, a balch ydym o ddeall fod Mr Aled Evans, Tŷ Newydd a Mr Dafydd Price, Tan y Graig, wedi aildechrau gweithio wedi eu anhwylder.

UNDEB Y MAMAU — Cyfarfu aelodau Undeb y Mamau yn yr Ysgol Gynradd. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Rheithor. Llywyddwyd gan Mrs Williams, Y Rheithordy, a chyfeiliwyd gan Miss C. Hughes. Y wraig wadd oedd Miss Eveline Vaughan Davies, Caernarfon a rhoes cip ar ddigwyddiadau ei phlentynod a rhai diweddarach. Caed noson ddifyr ac addysgiadol. Y westwraig oedd Mrs H. Williams, Nant Forgan. Diolchwyd i Miss Vaughan Davies gan Mrs J.E. Watkins ac i'r westwraig gan Mrs G. Roberts. Diwedddwyd drwy weddi.

TAN-Y-COED

MARW — Brawychwyd ardal Tan-y-coed fore Sul, Ionawr 28, a'r newydd trist ac annisgwyl am farw sydyn Mr Gwilym O. Williams, Dwyfor. Yn y rhifyn diwethaf o'r papur hwn yr oeddym yn cydymdeimlo ag ef, wedi iddo golli ei chwaer yn sydyn yn Lerpwl.

Mae cydymdeimlad yr ardal â'i briod, Mrs Megan Williams, a'i unig fab, Mr Cemlyn Williams, a'r teulu oll yn eu profedigaeth lem.

LLWYDDIANT — Chwefror 9 ym

Mangor dan nawdd Ysgolion Uwch-radd cynhaliwyd Ras Rhedeg Draws Gwlad. Yn yr ornest hon llwyddodd Linda Jones, Pant Clyd i ddod yn nawfed allan o bedwar deg. Da iawn Linda.

Gwelwyd Linda yn ymarfer yn ddiwyd hyd lwybrau'r cylch yma.


Dyma lun Linda a'i chwaer Ann gyda'u cath fach, Tomi, — y gath fach y soniwyd am ei champau yn rhifyn Ionawr o'r papur yma. Yn y llun gwelwn Tomi ar gefn yr ebol, y mae mor hoff ohoni. Bydd Tomi wrth ei bodd yn mynd hyd y cae ar gefn Mona.



**GORS BACH
PANEL
BEATING
SERVICE
Cwm-y-glo**

Ffôn : LLANBERIS 814

**GWASANAETH TORRI-LAWR
24 AWR**



O'R GENEDLAETHOL

TEYRNGED I WILLIAM VAUGHAN JONES

Oherwydd i ddramodydd comisiwn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon fethu â dod o hyd i bwnc i gyfansoddi drama amdano bydd gan yr Eisteddfod ddrama — a honno'n ymwneud ag ymchwil dyn am bwnc i ysgrifennu drama amdano!

Bydd hefyd yn deyrnged i gyn-Gadeirydd Pwyllgor Drama'r Eisteddfod a fu farw yr Hydref diwethaf.

Awdur Yr Adduned yw'r Dr. John Gwilym Jones ac fel teyrnged i'w hen gyfaill William Vaughan Jones o'r Waunfawr y'i cyfansoddodd.

Yr oedd "Wil Vaughan" yn athro Mathemateg yn Ysgol Brynrefail ac yn ddramodydd lleol selog a gyfansoddodd ac a gynhyrchodd nifer helaeth o ddramâu i gwmni'r Waunfawr am flynyddoedd lawer. Yr oedd hefyd yn un o sylfaenwyr Theatr Eryri a gyfarfyddai ar un cyfnod yng Ngholeg Glynllifon, gyda'i gyfaill y Dr. John Gwilym Jones.

Daeth y ddau yn gyfeillion pan oeddynt yn athrawon ifanc gyda'i gilydd yn Llundain cyn y rhyfel.

Yr oedd yn frodor o'r Waunfawr a bu'n arweinydd cymdeithasol ac yn symbylydd diwylliannol o bwys yno gydol y blynyddoedd. Ei wraig, Mrs Mary Vaughan Jones, yw Cadeirydd y Pwyllgor

Gwyddoniaeth.

Er mai teyrnged i William Vaughan Jones yw'r ddrama, dywedodd Dr. John Gwilym Jones nad drama amdano ef ydyw.

"Drama am ddrama yw hi mewn gwirionedd," meddai, "oherwydd i mi fethu â dod o hyd i bwnc ar gyfer y ddrama gomisiwn ysgrifennais yn y diwedd am ymchwil awdur am bwnc," meddai.

Y mae dwy act — un yn ymwneud â'r gorffennol a'r ail a'r presennol.

"Y mae wyth o gymeriadau ynddi a chymerir eu rhan gan actorion lleol, llawer ohonynt yn hen fyfyrwyr i mi," meddai.

Ymhlith yr hen fyfyrwyr y mae John Roberts, ysgrifennydd Pwyllgor Drama'r Eisteddfod.

Cymer rhyw ddwy awr i'w pherfformio a'r Dr. Jones ei hun sydd yn ei chynhyrchu. Fe'i perfformir gan gwmni'r Eisteddfod Awst 6, 7 ac 8 yn Theatr Seilo, Caernarfon.

Am ragor o wybodaeth cysyllter â Dr. John Gwilym Jones, Groeslon Rhif ffon: Llanwnda 305 NEU Ysgrifennydd y Pwyllgor Drama, John Roberts, Glennydd, Pontllyfni. Rhif ffôn: Clynnogfawr 378.

ATODIAD LLANRUG

CYMANFA GANU — Nos Sul, Mawrth 18 cynhelir Cymanfa Ganu dan arweiniad Mr Arwel Jones yn y Capel Mawr. Cymerir rhan gan Rosalind a Myrddin. Dechreuir am 8 o'r gloch.

APÊL OFFER Y GALON — Mewn ymateb i apêl offer y galon i'w ddefnyddio mewn ambiwlans, trosglwyddwyd £301.14 o ardal Llanrug, Tan-y-coed a'r Ceunant i'r Gronfa. Mae'n diolch cynhesaf i bawb fu yn gysylltiedig â'r apêl drwy wahanol gyfryngau. Hefyd i'r ardal am ei haelioni eithriadol.

Ar ran y Pwyllgor Lleol — J.C.W.

ATODIAD LLANBERIS

DIOLCH — Dymuna Ann Wilson a Gareth Roberts, Rhiwlas ddiolch o galon am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Gwenno Fflur.

NEWYDDION YCHWANEGOL AM Y GANOLFAN — Y GWAITH YN MYND YN EI FLAEN

Cynhaliwyd cyfarfod nos Lun, Chwefror 26, yn Swyddfeydd y Cyngor, Cwellyn, rhwng Dr. Bassett o'r Amgueddfa, Dr. Tom Pritchard, a Chyngor Arfon i drafod cwestiwn Canolfan Amgylchedd Llanberis, yn dilyn ymholiadau'r Cynghorwyr Pat Larsen a Trevor Williams.

RHIFYN NESA

Daw rhifyn nesa allan
lau, Mawrth 29
Deunydd i law ysgrifenyddion
perthnasol
erbyn
dydd Mercher, Mawrth 21

CARPEDI A BLEINDS

Gwasanaeth Glanhau Carpedi yn eich tŷ (peiriant stêm)

Cewch ddewis eich carped yn eich tŷ
neu'r storfa (ffoniwch gyntaf)

**ORIAU BUSNES — UNRHYW DDIWRNOD
AC UNRHYW AMSER**

**JAMES A. WILLIAMS
ARBENIGWR CARPEDI
RHOSGADFAN**

FFÔN: LLANWINDA 830796 (unrhyw amser)


YMDRECH LEW

POBL Y FRO

I GODI ARIAN AT

EISTEDDFOD CAERNARFON

(A'R CYLCH?)



PENISARWAUN

CYDYMDEIMLWN — â Mr a Mrs Goronwy Jones, Caerffynnon ar farwolaeth brawd-yng-nghyfraith Mr Jones yng Nghaernarfon. Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Blodwen Hughes, 1 Tai Trefor, Tan-y-coed, sydd wedi colli brawd, sef Mr John Williams, Bryn Teg, Clwt-y-bont. Cofiw'n yn onystal Mrs D.W. Edwards, Y Ficerdy, Llanllechid, yn ei phrofedigaeth o golli ei gŵr, Mr Wynne Edwards, cyn-ficer y pentref. Rhaid cydymdeimlo hefyd â Mr Tegid Roberts, Awel, a gollodd ewythr yn ddiweddar; a hefyd Mrs Eirwen Roberts, 12 Llys y Gwynt ar farwolaeth ei brawd, Mr Huw Jones, ychydig amser yn ôl yn Llandudno. Mae aelodau Sefydliad y Merched yn anfon eu cydymdeimlad ati.

EGLWYS ST. HELEN — Undeb y Mamau — Cafwyd gwasanaeth arbennig pnawn Sul, Chwefror 4. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaidd a chafwyd pregeth amserol iawn gan y Parch. G. Williams, Rhtithor Llanrug. 'Rydym yn ddiolchgar iawn iddo am ddod. Fe fydd cyfarfod blyneddol Undeb y Mamau nos Lun, Mawrth 5, ac fe fydd Mrs G. Williams yno yn llywyddu.

Anfonwn ein cyfarchion at bawb sydd yn cwyno, ac yn arbennig i Mr Iorwerth Griffiths ar ôl ei ddamwain i'w asennau yn yr eira.

CROESO — brwd i Mr a Mrs John Jones, Joanna a Matthew. Balch oeddem o weld teulu newydd yn y Weirglodd Goch. Croeso mawr i chwi a gobeithio y byddwch yn hapus yn ein plith. Mae ganddynt deulu yma'n barod, sef teulu Mr Nathan Jones a theulu Plas Dulas.

DYDD GWEDDI BYD EANG Y CHWIORYDD — Bydd cyfarfod arbennig yng Nghapel Bosra am 6 o'r



Dylan Williams, Careb, gyda Chwpan y Llywydd am yr eilydd gorau mewn cystadleuaeth St. Ioan.

gloch ddydd Gwener, Mawrth 2 i ddathlu Dydd Gweddi Byd Eang y Chwiorydd. Y pwnc fydd 'Tyfu yn yr Ysbryd'. Estynnir croeso i bob chwaer a all ddod i'r cwrdd.

DIOLCHIADAU — Dymuna Mrs N. Roberts, Vine Cottage, ddiolch i bawb a roddodd gysur iddi hi a'r teulu yn ystod eu phrofedigaeth o golli ei gŵr. 'Roedd y cydymdeimlad a'r caredigrwydd yn gymorth iddyn' nhw fel teulu.

PWYLLGOR YR EISTEDDFOD — A ninnau bellach mewn sefyllfa i gyhoeddi ein bod ni wedi cyrraedd £1,000, dyma gyfle unwaith eto i ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a'u haelioni. Yn arffodus mae'r pwyllgor wedi cael eu gorfodi i ohirio'r noson 'Cawl a Chân' nos Lun, Mawrth 5.

NANT PERIS

CYDYMDEIMLIR — â dwy a fagwyd yma yn eu profedigaeth o golli eu priod, sef Mrs B. Roberts o Wrecsam a Mrs Bet Williams, Pwllheli. Mae Mrs Roberts yn chwaer i Mrs Nancy Jones, 2 Glan'rafon a Mrs Eluned Owen, 8 Nant Ffynnon. Magwyd Mrs Williams yn Tŷ Isa.

LLONGYFARCHIADAU — i Mrs Florence Williams, Terfyn ar y rhaglen deledu ar Nation Wide ychydig wythnosau yn ôl, gyda Thelnyores Eryri. Da gweld doniau lleol ambell waith ar y Teledu. Disgwyliwn weld Mr John W. Elis (Perisfab) ar yr un rhaglen yn y dyfodol agos mewn rhaglen ar lwch y garreg.

Llongyfarchion hefyd i blant y Nant ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Deallwn fod Dafydd

Pritchard, Tŷ Isaf wedi cael gwobr 1af am adrodd a Julie Rutherford 2il wobwr am adrodd. Os oes rhywun wedi ei adael allan, mewn anwybodaeth y gwnaed hynny. Llongyfarchiadau i bawb a daliwch ati.

AIL-AGORWYD — Capel Rehoboth ar y 3ydd Sul o Chwefror ar ôl gorffen ei addurno. Yn y bore gweinyddwyd yr ordinhad o Fedydd pryd y bedyddiwyd Beverley Anne, merch fach Mr a Mrs Keith Roberts o Lanrug. Dymunwn bob bendith i Beverley a'i rhieni yn y dyfodol.

Yn oedfa'r hwyr gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd — y ddwy ordinhad yn cael eu gweinyddu yn ddefosiynol gan y Parch. Marcus W. Robinson, y gweinidog.

BETHEL

CLWB Y MAMAU — Nos Fercher, Ionawr 24 treuliodd aelodau Merched y Wawr a Sefydliad y Merched noson hwyliog iawn yng nghwmni Clwb y Mamau. Croesawodd Mrs Elizabeth Evans y cadeirydd, Mrs M.G. Williams Gwylfa i'w plith.

Mrs Williams oedd yn gofalu am y Cwis. Bu ateb brwd gyda Mrs Audrey Pierce, Cae'r Siddi yn cadw'r sgor.

Darparwyd lluniaeth blasus iawn gan y pwyllgor.

Enillwyd y raffle gan Mrs M.G. Williams. Talwyd y diolchiadau ar ran Merched y Wawr gan Mrs Gwyneth Williams, Y Fachell. Yn ystod y mis bu'r cadeirydd yn ymweld a Mrs Lena Thomas, 9 Cremlyn yn Ysbyty Bryn Seiont gyda blodau a dymuniadau da Clwb y Mamau, Bethel. Brysiwch wella Mrs Thomas. Bydd y clwb yn cyfarfod ar Chwefror 28 gyda noson o Ddawnsio Gwerin gyda Mrs Awena Jones.

MERCHED Y WAWR — Cafwyd noson o hoff recordiau a barddoniaeth yng nghyfarfod mis Chwefror dan lywyddiaeth Mrs M.G. Williams, Gwylfa. Cymerwyd rhan gan Mrs Shirley Evans, Mrs Helen Bebb, Mrs Beti Owen, Mrs Madge Williams, Mrs Elen Ellis, Mrs A. Jones, Cefn, Mrs Mair Price, Mrs Eirlys Sharpe a'r llywydd. Diolchwyd iddynt gan Mrs Mair Jones, Glan Gors. Gwestwagedd y te oedd Mrs Ann Elis a Miss Megan Hughes. Enillwyd y raffl Gwestwagedd y te oedd Mrs Ann Elis a Miss Megan Hughes. Enillwyd y raffl gan Mrs Jones, Y Ddol.

Derbynnir enwau ac arian y cinio Gŵyl Dewi gan Mrs M.G. Williams neu Mrs Rita Williams erbyn Mawrth 9.

Derbyniwyd rhodd o £5 gan Miss M. Hughes tuag at brynu tebot er budd y gangen leol.

DIOLCHIADAU — Dymuna Anne Owen, 33 Heol Elinor, Caernarfon a David Evans, Blaen Parc, Bethel ddiolch i'w rhieni, teulu a ffrindiau am y cyfarchion a'r anrhegion a gawsant ar achlysur eu dyweddïad ar Ionawr 27.

CYDYMDEIMLO — Ar Chwefror 9 bu farw Mr William Hugh Williams, 7 y Ddôl.

Ar Chwefror 6 yn 86 oed bu farw Miss Elizabeth Parry, Penmaen.

Mae'n cydymdeimlad llwyrfa â'r ddau deulu yn eu profedigaeth.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL — Nos Fercher, Chwefror 21 cafwyd Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Ysgol, gyda'r elw yn mynd at gyfraniad Bethel i'r Eisteddfod.

CLWB Y RHOS — Nos Wener, Chwefror 16 bu rhai aelodau Clwb y Rhos a'u gwragedd allan am ginio yng nghwesty'r Stables, Llanwnda. Cafwyd noson ddifyr er y tywydd garw.


COFIO —

"Am ei enw braf y myn bro Afael o hyd, a'i gofio."

Pam? Bob tro y gwelwn William Williams, 31 Bro Rhos, Bethel ar y ffordd un o'r cwestiynau a ddeuai'n syth i'm meddwl oedd, "Pwy sydd mewn angen rwan?" Un o nodweddion amlyca, ei gymeriad tawel oedd ei barodrwydd i gynorthwyo perthynas, cyfaill neu gymydog. Os gallai ef helpu mewn unrhyw ffordd fe wnâi hynny ar unwaith heb rwnnach. Mynd ar neges i bentref cyfagos yn y car, mynd fan draw i drwsio rhywbeth â'i sgrw-dreifar neu fynd fan arall i ymweld. Dyna wnaeth ef, mynd a gwneud y pethau bychain sy'n cyfri. O'i fynd olaf mae Bethel yn dlotach. Prinhaus y mae ei debyg.

Diolchwr.

LLYN PERIS, CHWEFROD 24, 1979



AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO

Eric Morris



Arvon Coaches
LLANRUG

FFÔN WAUNFAWR 254

GWILYM JONES
Monumental Works
LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

Gwaith Coffaol o bob math
mewn llechi a gwenithfaen gan
grefftwyr lleol

DEINIOLEN

NOFIWYR — Mae'n falch iawn gennym eto longyfarch plant a phobl ifanc yr ardal am ddod â chlod i'r pentref, sef Jennifer Ellen Jones, 7 Porth Gogledd wedi cael bathodyn 20 medr; hefyd Nicholas Thomas, 2 Tai Caledffrwd a Bryn Jones, Minafon am nofio dwy filltir ym mhwll Bangor. I Harlech aeth cynrychiolwyr y clwb ieuencid a daeth Barry Wardle Pentre Helen adref wedi ennill Tarian a Thystysgrif am gael y wobwr gyntaf trwy Arfon a Gwynedd. Da iawn Jennifer a'r hogiau. Daliwch ati i ddod â mwy o glod i'r ardal.

Y TABERNACL — Llongyfarchiadau i blant ac athrawon yr Ysgol Sul ar ddod yn gyntaf eto ar gystadleuaeth y cywaith ar 'waith a Hanes y Genhades, Gwladys Aylward'.

Nos Fercher, Ebrill 11 bydd gwasanaeth i ddadorchuddio cofeb i'r diweddar Barch. George W. Brewer, M.A., B.D.

Os dymunir mae cyfle i'w gyfeillion gyfrannu at y gofeb er nad ynt yn aelodau yn y Tabernacl, trwy law Mr David Davies, 82 Pentre Helen neu Mr Owen Hughes, Erw Fair.

O'r Sul cyntaf o Fawrth ac am gyfnod arbrofol o 6 mis, bydd yr Ysgol Sul am 10 y bore a phregeth am 2 o'r gloch.

DIOLCH — Dymuna Mrs Maggie Jones a Mr John Jones, chwaer a brawd annwyl y diweddar Mrs Hannah May Pritchard, 4 New Street, ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am eu cydymdeimlad, cardiau, llythyrau a'r blodau yn eu profedigaeth. Hefyd am bob caredigrwydd, ymweliadau, anrhegion a chardiau iddi tra yn yr ysbytai. Hefyd i feddyg y teulu a Mrs Lloyd; meddygon a staff ysbytai C. & A.; Minffordd; Eryri a Brynseiont; Plas Gwilym, Penygroes a Phlas Pengwaith, Llanberis am eu gofal tyner. Diolch hefyd i bawb am eu gwasanaeth ddiwrnod yr angladd.

APÊL GWAUN GYNFI — Dymuna pwyllgor yr Apêl ddiolch i'r dewrion rheini fentrodd allan ar un o nos- weithiau oeraf y gaeaf, sef nos Fercher Chwefror 14, i ymuno mewn Gyrfa Chwist lwyddiannus gynhaliwyd yn Ysgol Gwaun Gynfi. 'Roedd pawb oedd yn bresennol yn yr Yrfa yn haeddu gwobr, ond cyfyngwyd y cyfryw i'r canlynol yn unig: (Merched) 1. Rhian Jones; 2. Nan Jones; 3. Eirlys Lloyd Jones; (Booby): Margaret Roberts. (Meibion): 1. J. Maldwyn Jones; 2. Aled Jones; 3. Meurig Roberts. (Booby): Leslie Roberts. ('Knock-out): Eileen Roberts a J. Maldwyn Jones.

Disgwylir cefnogaeth frwd i'r cyngerdd 'Brethyn Cartref' sydd i'w gynnal yn Ysgol Gwaun Gynfi, am saith o'r gloch, nos Wener, Mawrth 2, pryd y cyfrennir eitemau safonol gan ieuencid yr ardal, gyda'r Parch. Trefor Lewis yn arwain. Bydd y rhaglen amrywiol yn cynnwys rhywbeth at flas pawb ohonom, felly mynnwch eich tocyn — pris 25c — yn ddiymdroi.

Nos Wener, Mawrth 23, cynhelir Disgo i'r plant iau yn Ysgol Gwaun Gynfi, pan fydd trefniadau ar gyfer y noson yn nwylo Mr W. Eames.

I'r rheini ohonoch oedd wedi prynu tocyn ar gyfer darlith y Parch. J. Alun Roberts a ohiriwyd ar Ionawr 31, nodwch os gwelwch yn dda, mai ar nos Fercher, Ebrill 4, y cyflwynir ei ddarlith ddiddorol gan Mr Roberts ar y testun 'Chwalu'.

MARWOLAETHAU — Chwefror 2 yn Ysbyty'r Bwthyn Caernarfon, bu farw Mr John Williams, 1 Bryn Teg, Clwt-y-bont. Cydymdeimlwn yn fawr â'r cysylltiadau teuluol yn eu profedigaeth.

Trist oedd clywed am farwolaeth Mr Tom Morris, 93 Pentre Helen, a fu farw ddydd Iau, Chwefror 22. Dymuna'r holl ardal gydymdeimlo â'r teulu yn eu profedigaeth.

DIOLCHIADAU — Dymuna'r Meddyg Nora Marren, Plas Eryr, Clwt-y-bont, ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd yn ystod ei harhosiad yn yr ysbyty ym Mangor, ac ar ôl dod adref.

ORIAU NEWYDD — Meddygfa Dr. Marren Deiniolen: Llun, Mawrth, Gwener: 5-6 p.m. Mercher: 3.45-4.45 p.m. Bob bore 9-10.30 a.m. Llanberis: Dydd Llun, Mawrth, Gwener: 3.45-4.45 p.m. Dydd Mercher: 5-6 p.m.

EISTEDDFOD YSGOL BRYN-REFAIL — Llongyfarchiadau calonnog i blant ein pentref a enillodd wobrau yn yr eisteddfod uchod. Gyda balchder daeth y newydd fod enillydd y Gadair unwaith eto yn dod o Ddeiniolen, sef Emyr Llewelyn Griffiths, Cynfi, a'r ail wobwr yn mynd i Kathy Williams, 77 Pentre Helen. Yn ystod oes yr Eco mae'r Gadair wedi dod i'r pentref dair gwaith.

SEINDORF ARIAN — Cymerodd y Seindorf ran mewn cyngerdd arbennig yn Theatr Gwynedd Bangor, nos Sul diwethaf, Chwefror 25. Yn ystod y cyfarfod cyflwynodd Mr John Emrys Morris anrheg i Mr Tom Williams, ar ran y Seindorf ar ei ymddeoliad o'r Seindorf ar ôl blynyddoedd o wasanaeth ffyddlon. Carem oll ddymuno pob hapusrwydd ac iechyd i Tom yn y dyfodol.

CLWB SNWCER — Cynhaliwyd y rownd derfynol yn y gystadleuaeth flynyddol nos Wener, Chwefror 2. Yn yr adran ieuencid trechodd Dewi Wyn Lewis, Llys Myfyr, Aeron Maldwyn Jones, 14 Tai Marian, ac yn y snwcer Eifion Williams, 7 Becws drechodd Ifan Wyn Williams, 12 Ffordd Deiniol. Yn y Biliards Meirion Jones, Minafon a enillodd yn erbyn Edwin Evans, Arfon, Gallt y Foel. Carwn longyfarch y chwech am noson ddifyr o gystadlu brwd a chyfeillgar. Bydd y trip blynyddol yn mynd i Sheffield ddydd Sadwrn, Ebrill 21.

LLWYDDIANT CERDDOROL — Dymunwn longyfarch Helen Mair Jones, 14 Tai Marian ar ei llwyddiant gyda theilyngdod yn arholiad canu'r piano. Cynhaliwyd yr arholiad dan nawdd Coleg y Drindod Llundain.

DIOLCHIADAU — Dymuna Mrs Jennie Williams, 12 Tai Caradog ddiolch i lu o'i ffrindiau a'i chymdogion am eu cydymdeimlad a'u caredigrwydd yn ystod ei phrofedigaeth o golli ei chwaer, Mrs Nell Jones, Caer-gybi.

PYSGOTWR O FRI



Gareth Owen, 29 Stryd Newydd, Deiniolen yn dal y gwpan a'r darian a enillodd yn ddiweddar am ddal y brithyll mwyaf (4 pwys) mewn cystadleuaeth yn Nhrawsfynydd.

CYFLWYNWYD SIEC — o £218 i Ysgol Pendalar, Caernarfon yn ddiweddar, sef yr elw o 'Aw'r o dawelwch noddedig'. Y rhai a lwyddodd i gadw'n dawel am awr oedd grŵp o wragedd o'r pentref — y 'Pwyllgor Ewyllys Da'. Mae'r Pwyllgor o dan gdeiryddiaeth dynl — sef Mr Alun Wyn Evans, Pentre Helen. Aelodau'r Pwyllgor yw: Esther Ann Williams; Maureen

Evans; Gaynor Williams; Olive Allen; Wendy Close; Rhianwen Jones; Cynthia Davies; Edna Jones; Mair Owen; Anwen Roberts; Gwyneth Lewis; Katie Jones; Nellie Parry; Ida Evans; Jean Diana Jones; Helen Wyn Lewis; Pricilla Collins.

Carai'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cyfraniad.



Rhai o aelodau'r pwyllgor yn cyflwyno'r siec

LLWYDDIANT TÎM ST. IOAN DEINIOLEN



Aelodau o dîm St. Ioan Deiniolen a enillodd gwpan tlws ambiwlans Marl, gyda'u hyfforddwyr Nursing Officer Jones a Div. Superintendent Jones.

DINORWIG

CYMDEITHAS UNDEBOL — Nos Iau Chwefror 1, yn y Ganolfan cafwyd sgwrs ddiddorol dros ben ar 'Hiwmor' gan y Parch. Gareth Maelor Jones, y Bontnewydd. Llwyddwyd y cyfarfod gan y Parch. Ifor L. Williams (B) a thalwyd y diolchiadau gan Mrs Katie L. Hughes.

DIOLCHIADAU — Dymuna Mr David Jones, 5 Maes Eilian, ddatgan ei ddiolchgarwch am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra yn Ysbyty Môn ac Arfon, ac Eryri, Caernarfon yn

ddiweddar.

DYDD GWEDDI BYD-EANG Y CHWIORYDD — Cynhelir cyfarfod o'r uchod yn Eglwys Sardis (B) am 2 o'r gloch ddydd Gwener, Mawrth 2 eleni. Croeso cynnes i'r chwiorydd.

YN YR YSBYTY — Anfonir ein cofion at Mr Eirwyn Fleming, 1 Maes Eilian sydd yn Ysbyty Môn ac Arfon. Gwellhad buan fo iddo, a rhai eraill sy'n cwyno yn eu cartrefi'r tywydd oer caled yma.

E.W.&M.WILLIAMS



Y BECWS DEINIOLEN

FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES — TEISENNAU BLASUS!

(Rydym yn arbenigo mewn teisenau Priodas)

**DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER
YN NEINIOLLEN, DINORWIG, FACHWEN**

Agor Ffiniau'r Gorffennol

gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

COFIO DILYS CADWALADR

WEDI cystudd byr, bu farw un o enwogion Cymru, sef Mrs Dilys Cadwaladr Scheltinga, Syntur, Rhoslan, Cricieth, yn Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor, Ionawr 17 eleni. Rhoddwyd hi i orffwys ym mynwent Eglwys y Plwyf, Llanrug y prynhawn Sadwrn dilynol.

Cafwyd gwasanaeth yn yr Eglwys ac ar lan y bedd. Y Parch. G. Williams (Rheithor) yn arwain. Miss Nellie Owen, Glanrafon oedd wrth yr organ. Daeth tyrfa dda o berthnasau, cyfeillion a chymdogaion o bell ac agos i dalu'r gymwynas olaf i un oedd mor annwyl gennym. Methodd llawer â bod yn bresennol oherwydd y tywydd o rew ac eira. Derbyniwyd amryw o lythyrau yn ymddiheuro.

Wrth sefyll ar lan y bedd gyda'r gynulleidfa daeth englyn o waith fy niweddar dad i'm cof. Y mae'n bwrpasol iawn hefyd i gofio Dilys Cadwaladr:

Bydded heddi lle y gorwedda —

ynghwsg

Yng nghysgod yr Wyddfa:
Ei hynod a'i hoff enw da,
Caddug y bedd nis cuddia.

Glan Rhyddallt.

Ymhlith y galarwyr yr oedd Mr Leo Scheltinga (priod: Mr a Mrs Shon Meredydd Scheltinga (mab a merch-yng-nghyfraith); Leo a Tanya (wyr ac wyres); Mr a Mrs W.R.P. George, Cricieth; Dr. C. Gresham (Pennant) Cricieth; Mrs E. Elias Rhoslan (ffrind a chymdogaes); Mr a Mrs W. Sam Jones, Rhoslan; Parch. a Mrs Gwyndaf Evans, Llandudno; Mr a Mrs D.G. Jones (Selyf) Rhoslan; Mr a Mrs Clarkson, Rhoslan; Mr a Mrs Maurice Jones; Mrs Whitehead Royal Cambrian Academy; Mr A. Morgan, Penmorfa, Porthmadog; Mr Glyn Hughes, Caernarfon; Mr a Mrs Hughes, Pencraig Farm, Betws-y-coed; Mrs Lizzie Hughes, Isfryn, Llanrug; Mrs Roberts a Miss Roberts, Waunfawr; Mrs Hazel Jones, Capel Curig; Mr Gwyn Roberts, Penrallt Ganol, Betws-y-coed; Mrs Olwen Lloyd Jones, Penygroes; Mrs Alun Williams, Caernarfon, ac eraill.

Rhoddwyd blodau gan y teulu agosaf yn unig. Yr oedd y cerdyn "Er Cof am Nain" oddi wrth Leo a Tanya fach wedi cyffwrdd calon pawb.

Mr Griffiths dros Ffym Rowlands Bangor wnaeth yr holl drefniadau. Yr oedd lluniaeth wedi ei baratoi ym Mangor ar ôl yr angladd.

AELWYD GREFYDDOL

Ganwyd Dilys Cadwaladr yn y Ffôr ger Pwllheli. Sadler oedd ei thad. Daeth ei rhieni i fyw i siop ar groesffordd Penllyn ar y ffordd rhwng Cwm-y-glo a Llanberis. Magwyd hi ar aelwyd ddiwylliedig a chrefyddol. Collodd ei mam pan oedd yn bur ifanc. Bu hi a'i thad yn byw ym Mhenllyn ac wedyn yn Nghricieth.

Aeth dros drigain mlynedd hebio bellach ers pan ddeuthum i'w hadnabod a chyd-gerdded gyda hi i Ysgol y Sir, Brynrefail. Buom yn ffrindiau cywir wedyn ar hyd y daith.

Pan oedd yn 16 oed derbyniwyd hi i Goleg y Brifysgol Bangor lle graddiodd mewn Cymraeg a cherddoriaeth.

Bu'n dysgu mewn ysgolion yng Nghymru a Lloegr: Nantgwynant; Bryn

Engan Eifionydd; Llanfechain Maldwyn; Ysgol yn Surrey, Lloegr; Maidenhead; Aston Tirrold, Swydd Berks; yna dychwelyd i Gymru oherwydd hiraeth a dysgu yn Ysgol Frondeg Pwllheli. Dyma'r cyfnod y cyfarfu â'i phriod Mr Leo Scheltinga, brodor o'r Isalmaen, oedd yn aros mewn gweryll gerllaw Pwllheli. Peiriannydd Sifil, a mab i fardd a dramodydd o'r Isalmaen ydyw Mr Scheltinga. Wedi'r rhyfel priododd y ddau. Ganwyd iddynt mab, Shon Meredydd. Aethant drosodd i fyw am gyfnod byr i Ynys Enlli — Dilys Cadwaladr yn ysgolfeistres yno, a'i phriod yn ffermio.

Yna symudodd y teulu i fyw i Nant-bwlch-yr-heyrn, lle bu Dilys Cadwaladr yn ysgolfeistres o 1949-1963. Wedi ymddeol daethant yn ôl i'w cynefin, i fyw i Syntur, Rhoslan, hen gartref y Parch. Robert Jones. Arhosodd Shôn a'i briod a'r ddau blentyn, Leo a Tanya fach i fyw yn Nant-bwlch-yr-heyrn. Y mae Shôn Meredydd erbyn hyn wedi sefydlu busnes gwerthu peiriannau fferm yno.

Yn ystod y blynyddoedd olaf hyn byddwn weithiau yn taro ar Dilys Cadwaladr ar y stryd yng Nghaernarfon. Heb eithriad dyma ei chyfarfachiad, "Dowch am gwpaned a sgwrs". Wir, Seiad hapus fyddai ei chwmmi — sôn am feirdd a barddoniaeth a llyfrau. Cefais lawer o wybodaeth a gwersi ganddi o dro i dro.

Yn ogystal â llenyddia yr oedd yn arlunydd medrus hefyd.

Yr oedd Dilys Cadwaladr yn un o sefydlwyr Cymdeithas Cerdd Dant Cymru ac yn aelod o'r pwyllgor o'r dechrau. Bu'n ffyddlon ac yn hael ei rhoddion i Gangen Arfon o'r Gymdeithas.

Erys ei henw yn fyw yng Nghymru oherwydd y gwaith godidog a adawodd ar ei hôl, a bydd ei choffadwriaeth yn felys iawn.

Trist yw meddwl, wrth gofio, am ei gorchestion dihafal ym myd llenyddiaeth na chawn weld ei wyneb mwyach. Derbyniwyd y teulu ein cydymdeimlad dwysaf.

CYWIRO

Bu dau gam-brint yn ddiweddar. Ymddiheurwn:

Miss Buddug Llwydwen Williams, Bro Dawel, sy'n gywir.

Priodwyd Marged Uch Ifan yn 1717.

Yr eiddoch,
Y Golygydd.

(Bydd dilyniant i'r deyrnged hon y mis nesaf.)



CANU'R

MAE'N ffaith fod y fro yma yn cael ei chydabod drwy Gymru gddiddorol. Clywsom am ddawn gerddorol Marged Fwyn Uch Ifan m gyda chôr Meibion. Bu cerddorfeydd yng Nghwm-y-glo a Bethel. 'Ro rhyw ugain mlynedd yn ôl.

Amhosibl fyddai cynnwys hanes canu a cherddoriaeth bro'r Eco chofnod o bryd i'w gilydd yn ystod y misoedd nesaf. Os oes ganddych fro — gyrrwch y wybodaeth i'r Golygydd Erthyglau, Gwên y Wawr, L



Gyrrwyd y llun uchod i'r Eco gan Mrs Mair Jones, 11 Vaynol Terrace, Deiniolen. Ei gŵr hi, gyfer y brif gystadleuaeth yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Yr arweinydd yw Mr Peleg Williams dan arweinyddiaeth Mr J. Maldwyn Roberts a Chôr Pen y Garret dan arweinyddiaeth Mr Mar hadnabod.



Llun o'r ddiweddar Mrs Katie Jones, un o unawdwyr enwoca'r ardal yn canu gyda'i gŵr, Mr Richard Jones, Glasfryn, Llanberis yn Bangor Pensylvannia, U.D.A. Gadawodd Mr a Mrs Jones a'u mab, Arwel, am U.D. ar y long enwog 'Georgie' ar Orffennaf 14 1951. Trafaeliodd y tri dros 6,000 o filltiroedd a rhoddodd Katie Jones nifer fawr o gyngherddau yn ystod 3 mis.

Un arall o gerddorion y fro gyda'i henw yn ymddangos ar 'boster' cyngerdd yn 1940. Miss Flo Roberts — Telynores Gelert, sydd yn awr yn byw yn Nant Peris.

NOSON GYDA'R DELYN

CYNGERDD

Mr. EDGAR WILLIAMS Piano	EBENEZER (A) TRAWSFYNYDD NOS LUN CHWFFOR 1940	Mr. ALAN ROBERTS Piano
Mr. WILLIAM EDWARDS Piano	Mr. R. JONES Piano	Mr. H. ROBERTS Piano
Mr. THOMAS EDWARDS Piano	Mr. ALAN ROBERTS Piano	Mr. FLO ROBERTS Piano
Mr. DAVID ROBERTS Piano	Mr. ALAN ROBERTS Piano	Mr. H. ROBERTS Piano

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

FRO

an fei bro gerddorol. Mae hanes cerddoriaeth yn y fro yn hynod bell yn ôl â'r ddeunawfed ganrif. 'Roedd sawl ponc yn y chwarel a y werin yn ymgodymu â cherddoriaeth Mozart, Haydn a Handel

ewn cyn lleied o ofod. Felly, bydd yn rhaid cynnwys stori, llun a uniau neu storïau neu hanes unrhyw gôr, cerddor neu unawdwr yn y llug. Am t tro, dyma damaid i brofi:



diweddar Robert Jones, oedd ysgrifennydd Côr Meibion Dinorwig a welir yn ymarfer ar yr cyfeilydd, Mr Huxley Thomas. Unwyd dau gôr o'r chwarel ym 1946 (Côr Pont Australia a Owen) i ffurfio Côr Meibion Dinorwig. Mae sawl wyneb cyfarwydd yn y llun. Hwyl ar eu



Beth amser yn ôl bu cyfeiriad at y diweddar Brwynog Jones a'i ddiddordeb yn 'Y Llanberis String Band' ac ar ôl hynny yn y corau meibion. Daeth Mrs Annie Davies, Gwenfro o hyd i'r darlun yma o 'Gôr y Comrades' gyda Brwynog Jones yr arweinydd, ac wrth ei ymyl y diweddar Orwig Williams, Plas Coch, y cyfeilydd. (Gyda llaw mae pob aelod o'r côr wedi ein gadael, ac mae'r ddwy eneth fach sydd yn sbectol yn yr ochrau yn bensiynwyr erbyn hyn.)

Annwyl Olygydd,

'CÔR Y COMRADES LLANBERIS'

Y ddiweddar Mrs Rhys Jones (Anti Cadi) a roes y llun i mi. Ni chofiaf ond yr ymadrodd 'Côr Comrades', o ddyddiau fy mhlethentod, 'Comrades' am iddynt fod yn lluoedd arfog y Rhyfel Gyntaf, ddyfala i. Ysgwn i a oeddynt yn ymarfer yn un o ystafelloedd helaeth Garej Edward Pritchard? Mae yno stafell a elwir o hyd gan y teulu yn 'rŵm Comrades'. Rhythais yn hir ar wynebau'r hen gantorian, ond gorfod gadael llu o wagleoedd, a dyfalu'n anghywir o bosib ar dro. A oes rhywun a all lenwi'r gwagleoedd yn y rhestr isod, a oes rhywun yn fyw, a oes rhywun a ŵyr beth o hynt a helynt y côr, ai byr ai hir ei hoedl? Dyma fy nghais carbwl i'w henwi:

Rhes flaen: Charles Owen, — Robert Owen, Gwilym Williams (Glanllyn), — Dafydd Thomas? Abel Williams, Well St. (?) William Thomas, — — — Ail res: Brwynog Jones, Robert Lloyd Hughes (?) Richard Jones ('Refail) — — — R.D. Jones, Glandwr, David Roberts (?) ('Rhelfa), — — Rhys Jones, Roland Roberts, Harri Rowlands (?) — William Roberts (?) Coed — — — Ellis Jones, Maes Llwyn — —

O'r gweddill yn y tu ôl nid adwaenaf ond Harri Jones (teiliwr), Richard Pritchard, Jack Toleman.

M. Pritchard.

AFON GWYRFAI

A'R tymor pysgota ar ddod, daw i gof yr amser hyfryd mae dyn yn ei gael ar lannau hen afonydd. Ydynt, maent yn hen, ac un o'r rhain ydy Afon Gwyrfa. Ond eleni fydd yna fawr o hwyl i'w gael o Bistyll Cerrig y Rhyd i fyny ar Lyn Cwellyn.

Mae yr 'hwnna Table Water' wedi gwneud yn siŵr nad oes torlan i'r brithyll bach i guddio 'tani, na thorlan 'chwaith i'r pysgotwr gael eistedd ami. Ymyrrwyd cymaint arni fel nad yw'n debyg i'r hen afon yr wyf fi yn ei chofio. Troellai honno mor ddiog, mor ddistaw nes eich bod yn teimlo ei bod yn loetran i sgwrsio efo chwi. Sawl pysgotwr sydd wedi llwyr anghofio fod ganddo enwair wrth eistedd ar ei glan yn gwrandao arni'n swbrwd ei chyfrinachau heb ddim ond cigfran ar ben yr hen Gidwm i dorri ar y tawelwch? Pa rŷfedd fod llawer un wedi dod yn ôl dro ar ôl tro i ddrachtio o'r tawelwch yma.

Fel y dywedais, ni fydd yr afon yr un fath i mi eto. Mae gwely yr hen afon wedi ei symud ac unionwyd ei chwr fel ei bod bellach fel rhyw A5 o afon heb ramant o gwbl ar ei glannau. Plannwyd arwyddion 'No Waiting' yn ei hochrau fel nad oes groeso mwyach i ymorffwysu ar ei glan. Diflannodd y llwyni helyg a'r holl fywyd gwyllt a lochesai yn eu cysgod. Heddiw fe wêl y creyr glas chwi'n dod o bell a 'does dim gobaith dod ar ei bac yn ddiarwybod a'i weld yn dychryn ac yn rhusio i ffwrdd.

Mae'r afon Gwyrfa wrth lifo trwy Nant y Betws yn galw heibio mannau diddorol iawn. Un o'r mannau hyn yw'r Beudy Storws sydd â'i adfail i'w weld yno o hyd. Ychydig yn uwch i fyny mae Llain y Gwystl — rhimyn o dir oedd yn ffurfio ynghanol yr afon. Mae llifeiriant yr afon a'r llifogydd ar ôl stormydd yn newid yn barhaus maint a ffurf yr ynys. Fel 'tir neb' yr adnabyddid y llain neu'r ynys yna yn yr hen amser gan y defnyddid ef i bwrpas arbennig iawn. Os byddai dau eisiau gwneud cytundeb, cymodi a'i gilydd, gwneud addewid neu hyd yn oed fenthycu arian, byddent yn trefnu i gyfarfod ar 'dir neb' i gwblhau'r busnes. Byddai'r llecyn hwn yn gwarantu y cedwid at y fargen.

Nepell i ffwrdd, yn ymyl Tyn-y-weirglodd, 'roedd mangre y Capel Main. Erbyn heddiw 'does ond darn o un o'i furiau'n sefyll.

S.R. Williams y Post (taid Rhys Williams y perchennog presennol) a dynnodd fy sylw gyntaf at yr hen gapel pan ofynnodd i mi "Faint o'r hen Gapel Main sydd yn dal ar ei draed?" Ganddo ef wedyn y cefais hanes y capel. Clywais ef yn dweud droeon fel y byddai rhai yn dod yno o ochrau Drws y Coed i ambell gwrdd a seiat ac yn croesi'r afon ato yn Llain y Gwystl.

Lle hollol wahanol ei bwrpas y pryd hynny, ond heb fod ymhell i ffwrdd oedd Cwrt. Saif Cwrt ar fin y ffordd fawr ac nid oedd enw da iawn iddo yn yr ardal gan y byddai lladron yn llechu ynddo. Byddent yn aros i'r amaethwyr ddod adre â'u pocedi'n llwythog ar ôl bod yn ffeiriau Caernarfon yn gwerthu eu hanifeiliaid. Byddai rhai, er mwyn osgoi y lladron, yn croesi pont Cerrig y Rhyd a mynd heibio i Gwm Bychan tra byddai eraill yn croesi Llain y Gwystl ac yn anelu am gefn llyn Cwellyn ac ymlaen wedyn i Gwm Pennant.

Wrth ymyrryd â'r hen afon a'i throi allan o'i gwely difethwyd Llain y Gwystl fel nad oes dim ohono i'w weld heddiw. Ar ôl dygymod am ganrifoedd â throadau a thorlannau cyffyrddus ei hen wely plu, gwithwyd hi allan, sythwyd hi a'i rhoi ar 'styllen' — mi wyddoch beth 'rwy'n ei feddwl.

R.O. Pritchard
(Plas Isa gynt)

R. Hughes Jones a'r Mab

Cigyddion
BRYN AFON, CRAWIA
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3188

CIG BLASUS I'R RHEWGELL
PRISIAU CYSTADLEUOL
DIGON O DDEWIS, LLE HWYLUS I BARCIO



SIBRYDION O'R YSGOLION

EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL

Dydd Iau, Chwefror 22 cynhaliwyd Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Cafwyd eisteddfod ragorol eleni eto, ac mae'n diolch yn fawr i bawb a weithiodd mor galed i'w gwneud yn eisteddfod lwyddiannus.

BEIRNIAID: CERDD: Mr Dafydd Lloyd Jones, Ysgol Aberconwy; **ADRODD:** Mrs Nellie Williams, Efailnewydd, Pwllheli; **ADRODD Ffrangeg:** Catherine Vodarzyk, Waunfawr/Niort Ffrainc; **LLÊN:** Mrs Nona Breeze, Bontnewydd; **CREFFT ac ALRUNIO:** Mrs C. Thomas, Ysgol Syr Huw Owen, CYEILYDD: Mr Gwynndaf Parry, Ysgol Brynrefail; **LLYWYDD:** Mr Gwenlyn Parry, Caerdydd; **ARWEINYDDION:** Mr Iwan Williams, Dewi Williams, Eifion Jones, Gwilym Roberts, Ellis Davies, John Flint, Ian Kevin Owen, Elfyn Williams, Euron Griffith, Bryn Jones. **TREFNYDD LLWYFAN:** Mr D.W. Evans; **CADW MARCIAU:** Mr R.T. Jones, Mr. S. Allsupp. **Mair Morgan, Lindsay Spray.** **CYNORTH-WYO YR YSGRIFENNYDD:** Caroline Owen, Sian Lloyd Jones, **YSGRIFENNYDD:** Miss Elisabeth Williams.

CANLYNIADAU

ADRODD: (Cymraeg, Dos. 1 a 2): 1. Marina Roberts, Eryri; Sian Thomas, Eryri; 3. Lesley Williams, Eilian. (Dos. 3 a 4): 1. Hefin Prichard, Eilian; 2. Delyth Parry, Gwyrfa; 3. Menna Williams, Elidir. (Dos. 5 a 6): 1. Kathy Williams, Gwyrfa; 2. Rhian Parry, Eryri; 3. Dewi Williams, Elidir. (Ail-iaith, 12-15): 1. David Roberts, Gwyrfa; 2. Cheryl Edwards, Elidir; 3. Heath Addie, Eryri. (15-18): 1. Colette Roberts, Elidir. (Saesneg, Dos. 1 a 2): 1. Lesley Williams, Eilian; 2. Sian Thomas, Eryri; 3. Lynne Jones, Gwyrfa; 3. Julie Rutherford, Gwyrfa. (Dos. 3 a 4): 1. Jessica Williams, Elidir; 2. Menna Williams, Elidir; 3. Sioned Jones, Eryri. (Dos. 5 a 6): 1. Kathy Williams, Gwyrfa; 2. Rhian Parry, Eryri; 3. Heather Roberts, Eilian. (Ffrangeg, Dos. 1, 2, 3): 1. Jessica Williams, Elidir, Patrick Wheatcroft, Eryri. (Dos. 4,5,6): 1. Dewi Williams, Elidir; 2. Elaine Brailsford, Elidir; 3. Judith Green, Eilian. (Parti Cymraeg): 1. Gwyrfa; 2. Elidir; 3. Eilian; 4. Eryri (Parti Ail-iaith): 1. Elidir; 2. Eryri; 3. Gwyrfa; 4. Eilian. **SGETS.** (Dos. 1, 2 a 3): 1. Eilian; 2. Elidir; 3. Gwyrfa; 4. Eryri. (Sgets Dos. 4, 5 a 6): 1. Eryri; 2. Eilian; 2. Elidir; **CERDD:** Canu dos. 1, 2 a 3 Genethod) 1. Rhian Owen, Eilian; 2. Shan Gibson Eilian; 3. Rhianon. Eilian; 4. Bethan Hughes, Eilian. (Dos. 4, 5 a 6): 1. Annette Roberts, Elidir; 2. Ruth Lennon, Gwyrfa; 3. Delyth Parry, Gwyrfa. Canu a chyfeilio: 1. Shan Gibson a Iola Griffith, Eilian a Gwyrfa; 2. Delyth Parry ac Olwen Roberts, Gwyrfa ac Elidir; 3. Annette Roberts a Julie Clarke, Elidir (2). **Unawd Piano:** 1. Annette Roberts, Elidir; 2. Dewi Williams, Elidir **Deuawd Piano:** 1. Dewi Williams ac Annette Roberts, Elidir; 2. Ruth Lennon a Iola Llewelyn, Gwyrfa; 3. Janice Price a Menna Williams, Elidir. **Unawd Bechgyn Dos. 1, 2 a 3:** 1. Keith Parry, Gwyrfa; 2. David Roberts, Gwyrfa; 3. Mark Williams, Eryri. **Can Werin:** 1. Shan Gibson, Eilian, 2.

Rhian Owen, Eilian, 3. Annette Roberts, Elidir. **Cor Cerdd Dant:** 1. Gwyrfa; 2. Eryri; 3. Eilian; 4. Elidir. **Cor Pedwar Llais:** 1. Eilian, 2. Elidir, 3. Eryri, 4. Gwyrfa. **Unawd Offeryn Chwyth (Pres):** 1. Julie Clarke, Elidir, 2. Kelvin Lewis, Eryri, 3. Dilys Jones, Eilian. **Unawd Offeryn Chwyth (Chwythbrennau):** 1. Adrian Evans, Eilian, 2. Delyth Parry, Gwyrfa; 3. Paula Jones, Elidir. **Cor Ty:** 1. Eilian, Elidir, 3. Gwyrfa, Eryri. **Y Gadair:** 1. Emyr Llewelyn Griffith, Elidir, 2. Kathy Williams, Gwyrfa; 3. Dewi Williams, Elidir, 4. Ruth Jones, Gwyrfa. **Enillwyr mwyaf o farciau dan 15:** Rhian Owen (26); Sian Gibson (25); **Enillwyr mwyaf o farciau dros 15:** Dewi Williams (32); Annette Roberts (30). **Mwyaf o farciau yng nghystadlaethau aeth offerynnau heblaw piano:** 1. Elidir (14); 2. Eilian (11); 3. Gwyrfa (7); 4. Eryri (6). **Cyfanswm marciau gweithgareddau ymlaen llaw:** Elidir (81½); Gwyrfa (78); Eilian (76); Eryri (63½). **Cyfanswm marciau gweithgareddau ar y llwyfan:** 1. Elidir (224); 2. Eilian (176); 3. Gwyrfa (156½); 4. Eryri (112½). **Cyfanswm marciau yr holl weithgareddau yr eisteddfod:** 1. Elidir (305½); 2. Eilian (252); 3. Gwyrfa (234½); 4. Eryri (179).

EHANGU GORWELION

Ar Chwefror 8, aeth 12 o'r 6ed dosbarth gyda Mr Evie Roberts, i ymweld â Lerpwl. Buont yn Walker Gallery, yr Eglwys Gadeiriol Gatholig, a choleg Polytechneg Lerpwl, lle cawsant sgwrs gan ddau o'r darlithwyr Mr Mousdale a Mr John Baum. Buont yn ymweld hefyd â'r Lady Lever Gallery, Port Sunlight.

LLWYDDIANT ARLUNIO

Bydd darluniau gan ddwy o ddisgyblion yr ysgol, Mary Walton a Helena Williams, yn cael eu hymddangos yn y Walker Gallery, Lerpwl o'r Fawrth 10 ymlaen.

DIFFYG LLE!

Oherwydd diffyg lle yn yr ysgol mae dau ddosbarth symudol wedi eu gosod yno. Gobeithir mai dros dro yn unig y bydd hyn, oherwydd os bydd arian yn caniatáu bydd adeiladu parhaol yn cael eu hychwanegu at yr ysgol rhyw dro.

GOFALWR AR STREIC?



Nail nid dyma sydd yma, ond Mr Richard Jones, y gofalwr yn cau drws un o'r dosbarthiadau symudol rhag ofn i Mrs Katherine Owen ei feddiannu.

EISTEDDFOD YR URDD

CYLCH ARFON

Cynhaliwyd yr Eisteddfod yn Neuadd Bentref, y Groeslon, ddydd Sadwrn, Chwefror 24. Bydd y cyntaf a'r ail o'r unigolion, a'r cyntaf o'r partion a'r corau yn cystadlu yn Eisteddfod Sir Eryri a gynhelir ym Mangor, ddydd Sadwrn, Mawrth 31. **Llongyfarchiadau i'r canlynol o fro'r Eco.** **DAN 9 OED — Unawd:** 2. Meinir Dauncey Williams, Bethel. 3. Olwen Meredydd Jones, Llanrug. **Adrodd:** 3. Ellen Wyn Roberts, Llanrug. **Cerdd Dant:** 1. Meinir Dauncey Williams, Bethel. 2. Olwen Meredydd Jones, Llanrug. **Adrodd Cymry Ail-iaith:** 3. (Cyd.) Jessica Rachel Mumford, Ysgol Gwaun Gynfi. **DAN 12 OED — Unawd:** 2. Alison Edwards, Ysgol Dolbadarn. 3. Jane Parry, Ysgol Dolbadarn. **Adrodd:** 1. Manon Dauncey Williams, Bethel. **Cerdd Dant:** 2. Manon Dauncey Williams, Bethel. **Adrodd Cymry Ail-iaith:** 2. David Gartside, Ysgol Dolbadarn. **Parti Canu Unsain dan 12:** 2.

Parti Allison, Ysgol Dolbadarn, 3. (Cyd) **Parti Wendy, Ysgol Gwaun Gynfi.** **Parti Recorders:** 1. Parti Bethan, Ysgol Dolbadarn. **Unawd Piano dan 12:** 1. Sharon Williams, Ysgol Gwaun Gynfi. 2. Delyth Williams, Ysgol Gwaun Gynfi. 3. Manon Llwyd, Llanrug. **Parti Cerdd Dant dan 12:** 1. Parti Karen, Ysgol Gwaun Gynfi. 2. Parti Paul, Ysgol Gwaun Gynfi. **Parti Adrodd:** 1. Parti Gwyneth, Ysgol Dolbadarn. 3. Parti Dylan, Ysgol Dolbadarn. **Cor Adran:** 1. Ysgol Dolbadarn. 3. Ysgol Gwaun Gynfi. **DAN 15 OED:** Parti Adrodd: 1. Parti Ysgol Brynrefail. **Adrodd Cymry Ail-iaith:** 1. David Roberts, Ysgol Brynrefail. **Unawd Cerdd Dant:** 1. Rhian Owen, Ysgol Brynrefail. **Unawd Merched:** 1. Rhian Owen, Ysgol Brynrefail. 2. Sian Gibson, Ysgol Brynrefail. **Unawd Pres:** 1. Gwyn Meirion Roberts Llanrug. **Unawd Chwythbrennau:** 1. Anthony Marston, Ysgol Brynrefail. **Cynhelir y cystadlaethau dawnsio gwerin a'r Gan Actol ar ddyddiad pellach.**

ENILLWYR 'STEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL

GRWP CAN YSGAFN



Chwith i'r dde. Cefn: Karen Williams, Olwen B. Roberts, Karen Owen. Blaen: Marina B. Roberts, Anita Jones,

Annette B. Roberts. Yn absennol: Nia A. Williams.

ENILLWYR MWYAF O FARCIAU DROS 15



1af: Dewi Williams (am y 5ed tro!) 2il: Annette Bryn Roberts.

ENILLWYR MWYAF O FARCIAU DAN 15



1af: Rhian Owen (chwith); 2il: Sian Gibson (dde).

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn 202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

LLANBERIS

DIOLCH — (Buck) — Dymuna Mrs Mary Buck, 4 Maes Derlwyn, a Tom a Jennie Williams, 23 Heol Elinor, Caernarfon, ddiolch yn gynnes i'r teulu, cymdogion, ffrindiau a chydweithwyr am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth sydyn o golli gŵr a brawd annwyl. Diolch hefyd am y llu cardiau a llythyrau a dderbyniwyd, sydd yn rhy niferus i'w hateb yn bersonol.

Dymuna Maldwyn Lewis, 13 Stryd Ceunant ddiolch i bawb am eu caredigrwydd hael tra bu yn yr ysbyty ym Mangor yn ddiweddar.

Dymuna Miss Gwyneth Rees Jones, Rallt Goch, ddiolch i'w pherthnasau cyfeillion a chymdogion am y cardiau a'r rhoddion niferus a dderbyniodd yn ystod ei harhosiad yn yr ysbyty ac ar ôl iddi ddychwelyd adref.

Dymuna Tony a Janet Pepper, 11 Stryd Newton, ddiolch o galon i bawb, yn deulu a chyfeillion am yr holl anrhegion a dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Sara.

PRIODAS — Yn ddiweddar yn eglwys Gatholig St. Helen yng Nghaernarfon priodwyd Maureen Allen, 32 Maes Padarn a Kevin McKeen, 29 Riverdale Park South Belfast.

GENI — Llongyfarchion i Joan a Dafydd Hughes, 1 St. Tomos ar enedigaeth efeilliaid yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Dwy chwaer fach newydd i Llioni!

CROESO — nôl i'n plith, Mrs Griffith, gynt o Stryd Charlotte. Mae Mrs Griffith wedi dod i gartre Plas Pengwaith. Dymunwn pob hapusrwydd yno iddi.

MARW — Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Enid Hughes, Stryd Siarlott, yn yr ysbyty.

Cydymdeimlwn â'i phlant a'i chwaer. Ar Chwefror 2, yn Ysbyty Dewi Sant Bangor bu farw Mrs Catherine Davies, 17 Maes Padarn.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w gŵr Mr Huw Griffiths.

Yn ei gartref yn Clitheroe, fis Ionawr bu farw Mr Cecil Warner. Bu am flynyddoedd yn cadw siop ddillad yn y

pentref.

DAMWAIN — Llithro ar y rhew a thorri ei braich, dyna oedd hanes Mrs Non Evans.

YN YR YSBYTY — Dymunwn adferiad llwyr a buan i: Mr B. Roberts loanfa; Mr H. Wheldon Hughes, Maes Eilian a Mr Iorwerth Roberts, Maes Padarn.

LLONGYFARCHIADAU — i Miss Eirian Lewis, merch Mr a Mrs Owen Lewis, Cilan, Ffordd Fawr, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 21ain ar Chwefror 25. Hefyd ar ei dyweddliad â Mr Bryan Williams, mab Mr a Mrs Elfed Williams, Rhostryfan.

CRONFA'R EISTEDDFOD — Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn gynnes iawn i Gangen Sefydliad y Merched am eu rhodd o £5, ac i Gangen Amblwlans Sant Ioan am eu rhodd o £5.

Cynhelir Noson Goffi a Chrempog yn y Ganolfan, nos Wener, Mawrth 2 (ac nid Helfa Chwilod fel a gyhoeddwyd yn y rhifyn olaf). Pris tocyn yw 20c. Bydd Noson o Gyw lâr a Bingo yng Ngwesty'r Gwynedd, nos Wener, Ebrill 6. Ond nifer gyfyngedig o docynnau a ellir eu gwerthu, felly y cyntaf i'r felin gaiff falu. Rhowch eich enwau cyn Mawrth 30 os gwelwch yn dda. Bwrddiedir cynnal Sioe Ffasiynau ym mis Ebrill hefyd.

Saif y Gronfa ar hyn o bryd yn £3,109-68.

Cynhelir y Pwyllgor nesaf nos Fawrth, Mawrth 6 am 8 o'r gloch yn Festri Gorffwysfa.

Y FREICHLLED GOLLEDIG — Os oes rhywun wedi colli breichled aur, a ddarganfuwyd yng Nghapel Coch wedi'r 'Gymafia Garolau' (Rhagfyr 17) a wnewch chi ddod i gysylltiad â Mrs Maureen Lennon, Plas Tirion (Llanberis 411).

CARNIFAL LLANBERIS — A oes rhywun yn gwybod rhywbeth o hanes dillad Cwrt y Carnifal a gâi ei gynnal yn y pumdegau?

Os oes, a wnewch chi gysylltu â'r ysgrifennydd sef Alwyn Thomas, Foelas, 19 Stryd Newton, Llanberis. Ffôn: 220.



Mae sawl wyneb cyfarwydd yn y llun yma. Dyma lun o blant Llanberis yn y Carnifal cyntaf a gynhaliwyd ar ôl yr ail Ryfel Byd. Dyma'r blac a enillwyd nhw am y gampwaith.

Eiddo Mrs Mary Thomas, 12 Pant Du, Llanberis yw'r llun.



Anfonodd Mrs Dilys Roberts, Dakota, Llanberis y llun yma o blant ac oedolion Stryd Yanky a Cambria ac Olgra Terrace mewn grwp yng ngharnifal Llanberis 1945. Un sydd wedi ein gadael, sef Mrs Valerie Griffith; mae'r lleill i gyd yn famau ac yn neiniau ac yn byw ymhell ac agos. Os gwn i a ydych yn eu hadnabod?

BRYNREFAIL

GENEDIGAETH — Llongyfarchion i Huw a Dilys Evans, Min y Don ar enedigaeth mab yn Ysbyty Dewi Sant, ddydd Llun, Chwefror 19, brawd bach newydd i Marian, Euron, Einir a Hugh a da yw deall fod Mrs Evans a'r baban yn dychwelyd adref y penwythnos yma (24-25).

WEDI SYMUD O'R PENTREF — pob lwc i John a Jean Jones, a'r plant o Fryn Parc, sydd wedi symud i fyw i Weirglodd Las, Penisarwaun a chroeso cynnes i Mrs Davies sydd wedi dod o Fangor i fyw ym Mryn Parc.

DYWEDDIAD — Llongyfarchion a dymuniadau gorau i Myrddin Jones, Greuor Villa ac Eleanor Pritchard, 38 Maes Padarn, Llanberis.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Cafwyd nifer o aelodau ynghyd yng nghyfarfod y mis, a fu dan ofal Mrs Pat Jones, Cae Coch a ddangosodd y dull o arlunio drwy 'collage'. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Shirley Roberts ac fe'i enillwyd gan Megan Jones. Rhoddwyd y te gan Gwyneth Jones a Hannah Jane Jones.

O'R YSBYTY — Bu tri o blant yr ardal yn Ysbyty Dewi Sant ym Mangor yn ddiweddar, sef Marian Jones, 3 Trem Eilian, Delyth Wyn Roberts, 8 Trem Eilian a David Jones, Ty'n Twll. Da yw deall fod y tri yn well a dymunwn ddatgan ein dymuniadau gorau iddynt.

CLWB Y MAMAU — Daeth nifer o aelodau ynghyd yng nghyfarfod y mis pan gafwyd sgwrs a darluniau diddorol dros ben gan Cynrig a Carys Hughes o Rhiwlas ar eu taith i Awstralia, drwy gyfandir Asia yn ôl i Gymru. Rhoddwyd anrheg y mis gan Moira Ellis ac fe'i enillwyd gan Rhian Jones. Rhodd-

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN ARFON

Nos Fercher, Ionawr 31, dan lywyddiaeth Mrs Eryl Roberts yn absenoldeb ein llywydd, Mrs Gwenda Davies, cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni swyddog tân o'r Pencadlys yng Nghaernarfon. Croesawyd ni i Lanrug gan aelodau'r cylch meithrin lleol a diolchwyd i bawb gan Ann Llwyd Ellis Jones. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fawrth 29, pan fyddwn yn trafod ein gwaith ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Edrychwn ymlaen hefyd am gwmni Dafydd Iwan ac Edward yn Nhanybont ar Fawrth 21 am 8 o'r gloch. Tocynnau £2 yn cynnwys cyw iâr a sglodion i'w cael yn y cylchoedd.

wyd y te gan Pat Jones a Carol Houston.

CLWB PEDWAR UGAIN — Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y clwb yn y Festri ar Ionawr 31. Daeth 15 o aelodau ynghyd, a chafwyd adroddiadau'r swyddogion. Ail-etholwyd y pwyllgor a chafwyd syniadau am weithgareddau at y flwyddyn hon.

Enillwyr mis Ionawr: Ionawr 5: 1. Mrs Owen, Trem Eilian; 2. Sheila Roberts, Llwyn Helyg; 3. Charles Jones, Deiniolen. Ionawr 12: 1. Colin Wagner, Llythyrdd; 2. Jinnie Roberts, Glan Dwr; 3. Owen Roberts, Llwyn Helyg. Ionawr 20: 1. Sue Jones, Deiniolen; 2. Barbara Lerpwl; 3. Hugh Walton, Rhydu Duon. Ionawr 27: 1. Ken Jones, Cae Coch; 2. Elwyn Jones, 1 Trem Eilian; 3. Margaret Jones, 1 Trem Eilian.


PATAGONIA — Da yw clywed fod Tom Thomas, Isallt a'i gyd-deithwyr wedi cyrraedd Miami, yn yr Unol Daleithiau, ac y maent bellach yn y Wladfa. Edrychwn ymlaen am newyddion o'r ymgyrch.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL — Braint yw datgan fod ymateb gwych wedi bod i'r casgliad a wnaed o dy i dy yn ddiweddar. Pleser yw eich hysbysu ein bod bron iawn â chyrraedd y nod o £600. Gan mai ond ychydig sydd eisiau eto i ddod i fyny â'r gofyn, fe drefnir taith gerdded yn y dyfodol agos. Os oes unrhyw un â diddordeb yn hyn, cysyllter â Dafydd Ellis, Gwledfa.

CYDYMDEIMLWN — yn ddwys gyda Mr Geraint Wyn Morris, Dinorwic House, a wynebodd profedigaeth sydyn ym marwolaeth ei dad, Mr Kenneth Maldwyn Morris, Caernarfon. Estynnwn ein cydymdeimlad gyda'r holl deulu.

Cydymdeimlwn hefyd gyda theulu Pen Llyn yn eu profedigaeth sydyn ym marwolaeth perthynas agos a oedd yn swyddog gyda 'Trinity House.'

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffon : Portdinorwic 670882

Perchennog : J. Evans

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: Llanberis 491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

DAU DAN GROES Y DE

CAFWYD cryn dipyn o gyhoeddusrwydd yn yr *Eco*, y papurau dyddiol a'r cyfryngau i'r fenter fawr gan fagad o ddringwyr o Gymry, â'u hwyneb ar ddringo'r Andes, ym Mhatagonia bell.

Mae'n wir fod sôn am ddringo'r Andes, ddechrau'r ganrif, yn llyfr Eluned Morgan, ond dyma ni o'r diwedd yn disgwyl clywed am bethau gwych pan fydd y criw mentrus hwn yn cychwyn o dref Esquel, yng Nghwm Hyfryd, i grafangio i ben Gorsedd y Cwmwl a chopau eraill ar ffin gwlad Chili.

Pump o'r chwech cyflawn a welid ar faes Caernarfon yng nghysgod cerflun herfeiddiol Lloyd George, yn derbyn baner y Ddraig Goch i'w chyflwyno i Faer Trefelin, yn y Wladfa. Dymunwyd yn dda iddynt gan Gadeirydd Cyngor Gwynedd a Mr Ioan Bowen Rees, Ysgrifennydd y Sir, yntau yn ddringwr o fri ac awdur llyfrau ar fynyddau yn Gymraeg.

Daeth gair oddi wrth y chweched aelod absennol, sef Alun Lloyd Hughes o Lanberis, yn ei lythyr-awyr i'w frawd Gwyndaf Lloyd Hughes, Glanffynnon, Llanrug, o'r dref mwyaf deheuol ar gyfandir De America - Punta Arenas. Ysgrifennwyd hwn ar fin y ffordd trwy'r Pampa diffaith, rhwng Punta Arenas a Puerto Natales yn nhueddau Culfor Magellan. Yma yn ardal y Cape Horn enwog, honnai iddo dreulio pythefnos wych yn y Parque Nacional Torres del Paine, Ardal y Llynnoedd, De Patagonia.

Gan mai haf yw hi yno ym mis Ionawr, 'roedd y tywydd yn sobor o boeth; gwynt blin yn chwythu yn ddi-baid, ac eira ar gopaon y mynyddoedd uchel. Cyfarfu ag eraill â'u bwriad ar ddringo y cribau serth - un ymgyrch ar grib y FORTRESS a thri o fechgyn o Sheffield yn eu plith. Ymgyrch o America, a llwyth o Swis-Almaenwyr ac Israelis yn trafaelio yno.

Deallir bod pethau yn ddrud yno, fel yma yng Nghymru. Caws a llefrith yn brin fel aur ond digonedd o gig o bob math. 'Roedd ef a'i bartner yn byw ar bys a brawd, gan eu rhated ac yr oedd y partner yn un da am bobi bara.

Pobol radlon, braf yw y trigolion i lawr yno ac yn ffeind dros ben, fel y mae y werin dlawd ymhob man. Mae trefn bywyd yno'r un fath ag oedd hi yng Nghymru tuag ugain mlynedd yn ôl. Gan mai nosau haf sydd yn Ionawr yno, bydd pobol y pentrefi yn mynd am dro gyda'r nos a'r cariadau yn rhodio'r meysydd law yn llaw - nid caru mewn ceir, gan fod prinder ceir gan bobol ifanc.

Bwriadai y ddau hwylio am bedwar diwrnod mewn cwch tua'r gogledd, os bydd un ar gael. Mae yno fysus, ond 'does y fath beth ag amserlen yn bod, mwy nag oedd yng Nghymru yn ardal yr *Eco* yn 1925-30. Os byddai lwc,

fe aent ar sgawt i'r Wladfa Gymreig neu i lawr i Ardal y Tan (Tierra del Fuego), gan fod ganddynt, y pryd hynny, dair wythnos i gicio'u sodlau, nes y ddi yr hogia o Gymru yno.

Fel y disgwyliad gan athro daearyddiaeth a grwydrodd lawer eisoes, mae Alun yn arsyllydd craff o'r amgylchedd. Gwelodd adar ac anifeiliaid gwyllt o bob math yn eu cynefin. Gwych o beth yw cael gweld y condor anferth yn uchelderau yr Andes. Dyma'r aderyn mwyaf sy'n ehedeg ar y tir - Eryr yr Andes, neu yn hytrach fwltur sy'n manteisio ar gerrynt awyr y cymoedd i wyllo a hela ei brae. Y wanaco gwyllt yw anifeiliaid naturiol yr ardaloedd creigiog hyn, cefnder y llama trahaus sy'n bynfarch sicr y cymoedd serth.

Y puma, llew mynydd, rydd dipyn o bryder i ddringwyr pan babellant mewn safleoedd unig. Gan gynifer o adar ac anifeiliaid dieithr sydd i'w gweld, mae De America yn Sw ynddo'i hun. Cafodd gyfle gwych i'w gweld a thynnu eu lluniau hefyd. Hydera ei fod wedi cael lluniau da. Ar y paith, yr unig anifeiliaid ffyrnig yw'r teirw Hereford gwyllt sy'n ymddangos bob tro y disgynnant o fws neu gar ynghanol 'nulle'. Ambell dro bydd cyfle i deithio mewn bws - Bysus Fernandez, digon tebyg i Fysus Nedw tua 1950 fel y tybia Alun.

Mae'n annog Gwyndaf i ofalu bod ei hogia fo yn cael dysgu Daearyddiaeth a Sbaeneg. Mae Sbaeneg yn hanfodol yn Ne America, a myn fod ei grap ar yr iaith yn bur sobor ond fod ei bartner yn well, diolch i'r mawredd! neu byddai'n rhaid iddynt ystumio pob dim i roi pobol ar ddeall.

Hyderwn y cawn wybod ychwaneg gan Alun, fel gohebydd arbennig yr *Eco*, yn y parthau hyn. Edrychwn ymlaen am ychwaneg o hanes hynt a helynt yr ymgyrch herfeiddiol hon.

R.W. Llanrug.

DIOLCH

Dymuna Mr a Mrs J.H. Jones, 3 Stryd Newydd, Deiniolen ddiolch am y cydymdeimlad a'r caredigrwydd a gawsant ym marwolaeth sydyn chwaer Mrs Jones, sef Mrs Megan Lambert, a chwaer Mr Jones, sef Mrs Hannah May Pritchard Diolch i bawb.



Dosbarth Mr W. Iolen Hughes, Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen 1949. Yn y llun hefyd mae'r prifathro, Mr Richard Jones, Diolch i D.E. Munro, I Lawrence Court, Corby am y llun.



Llun Carnifal Deiniolen - Pa flwyddyn? Y llun trwy garedigrwydd D.E. Munro, Corby.

YR ARDAL YN 1879

Pigion o ddyddiadur William Morris, Bron Fuches, Dinorwig 1811-1900

ION. 16: Dechreu gweithio tri dydd yn lle pedwar yn y chwarel.

ION. 19: Mr Jones Portdinorwic yn Bedyddio 12eg yn Dinorwic, 6 o fechgyn a 6 o ferchaid, 10 ohonynt o 12eg i 18au oed, a dau fab.

ION. 29: Llynau Llanberis wedi rhewi trostynt, ugeiniau yn ymlithro ar Lyn Peris i ymbleseru.

MAI 7: Poeri bwrw eira oer.

AWST 20: Neithiwr drylliwyd Tent fawr Eisteddfod Llanberis, yr ail waith cyn yr Eisteddfod; bu raid myned i pavillion Caernarvon i gadw yr Eisteddfod.

HYD. 9: Damwain amgeuol yn y Garret a Rowland mab y diweddar Griff Rowland, Weirglodd Goch yn 28 oed.

HYD. 13: Bu farw yn yr Hospital David O. Pritchard, Penisarhos, Llanrug mewn canlyniad anafu yn y Diffwys.

TACH. 2: Bore heddyw caed Samuel,

Rhyd y groes (Sam bach) ar y ffordd ger Mawnog y gof yn farw.

TACH. 15: Gwyddal yn gwanu Gwyddal i farwolaeth ger Coed y ddol, Llanberis.

(Ger Ynys Wen, oedd yn Dafarn y pryd hynny, y digwyddodd hyn. 'Roedd Mam yn cofio gweld y gwaed ar y lon, ac 'roedd ganddi fotwm a ddywedai oedd oddi ar ddillad un o'r Gwyddelod. Beth ddigwyddodd i'r lladdwr tybed? Ni ddywed William Morris ddim er ei fod yn cofnodi crogi dau lofrudd arall. "Awst 10, 1853: Crogi Jn. Roberts, Rol yn Caernarvon" ac "Ebrill 4, 1862: Yn Beaumaris Crogwyd Richd. Rowland Llanfaethlu am ladd ei dad yng nghyfraith). H.T. RHAG. 19: Damwain angeuol yn y Garret i John Jones Lletywr Cae Main. Lwmp o'r brig yn ymollwng ar ei ben. (Mab ydoedd i Wm. Jones, Garreg Coch gynt) 23 oed.

RHAG. 28: Marw Parch. John Jones, Sardis yn 59 oed.

Mae pobl Nevada yn gwybod fod pris yr *Eco* wedi codi.



LLANRUG

Y GOBEITHLU (Capel Mawr) — Dechreuwyd y tri chyfarfod trwy ddefosiwn gan Wyn Parry, Ael y Bryn, Wendy Jones, Gwydryn, Susan P. Jones, Nant-y-Glyn, Gwawr Owen, 2 Rhos Elan a Susan Morris, Gwenmon. Dysgwyr y plant i ganu, actio a dawnsio dan ofal Mrs Jones, Ogwen yn cael ei chynorthwyo gan Mrs W.O. Roberts, Anedd Wen a Mr John Williams, Gwledfa.

Y CYNGOR EGLWYSI — Yn Ffestri Pontrhythallt cafwyd seiat fendithiol iawn dan arweiniad Mr a Mrs Ifan Roberts, Tŷ Capel. Siaradwyd ymhelliach gan y Parch. W.O. Roberts a Mr Glyn Owen, Llys Eryri. Llywyddwyd gan Mrs Nancy Roberts, Anedd Wen.

UNDEB Y MAMAU — Er gwaetha'r tywydd caled daeth nifer dda o'r aelodau i'r Rheithordy ddechrau mis Chwefror. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Rheithor a Mrs Williams, Y Rheithordy a lywyddai. Y wraig wadd oedd Miss C. Williams, Llanberis, a siaradodd yn ddiddorol ac addysgiadol ar Flwyddyn Ryngwladol y Plant. Y gwestwagedd oedd Mrs R.J. Jones, Lyndale a Miss C.J. Roberts, y Fron. Diolchwyd i'r wraig wadd gan Mrs D. Pierce, Glan'rafon ac i'r gwestwagedd gan Mrs Williams, Y Rheithordy. Diweddwyd drwy weddi.

GWAELEDD — Deallwn fod Mr R.J. Williams, Tremallt yn gwella ar ôl cyfnod o anhwylder. Bu Mrs Douglas Jones, Tyddyn Elan a Mrs Watson, Rhos Rug mewn anhwylder hefyd, ond da deall eu bod hwythau hefyd yn gwella. Deallwn hefyd fod chwaer i Mrs Jones, 8 Glanmoelyn, yn wael mewn ysbyty ym Mae Colwyn a hyderwn y ceir gwell newyddion amdani cyn hir.

LLONGYFARCHIADAU — a phob bendith i Nia Rhydwen Humphreys, Lasynys ar ei phen-blwydd yn un ar hugain ar Chwefror 25. Oddi wrth Mam a Nana.

EGLWYS SANT MIHANGEL — Y mae Eglwys Sant Mihangel yn edrych yn hardd iawn wedi i'r carped a bwrcaswyd er cof am Mrs M. Berry, Menai Ville, Ceunant gael ei osod i lawr.

Collwyd un arall o aelodau yr Eglwys hefyd ym marwolaeth Miss F.M. Johnson gynt o High Moor, Ceunant. Bu am tua thair blynedd mewn cartref ym Mae Trearddur, Ynys Môn. Brodor o Firmingham ydoedd ond daeth i'r Ceunant flynyddoedd lawer yn ôl a bu'n hynod o hapus yno. Y Rheithor a weinyddai yn ei harwyl yn yr amlogfa ym Mangor.

MARW — Pan ar fynd i'r wasg clywsom am farw y Parch. Deiniol Wyn Edwards, Rheithor Llanllechid. Dechreuodd ei yrfa yma yn Llanrug ym 1933 ac edrychai ymlaen at gael ymddeol yma. Fe fydd Mrs Edwards yn gwneud ei chartref cyn hir yn Glanffynnon. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â hi yn ei phrofedigaeth fawr.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL (Capel Mawr) — Nos iau, Chwefror 1 cafwyd sgwrs ddiddorol ac addysgiadol iawn gan Mr Robert Williams, Stad Mountain View, a'i destun oedd 'Ar Gefn fy Nghyffyl'. Daeth cynulliad da ynghyd er gwaethaf y tywydd oer. Diolchwyd i'r siaradwr gan y Parch. W.O. Roberts, Anedd Wen a Mrs Beryl Thomas, Gerallt. Llywyddwyd gan Mrs Nancy Roberts, Anedd Wen.

MR CLEDWYN EDWARDS — Trist iawn oedd y newydd a ddaeth i Lanrug ddydd Mawrth, Chwefror 13. Bu farw Mr Cledwyn Edwards, gynt o Rhos Ddu mewn ysbyty yn y Rhyd. 'Roedd yn byw yng Ngharmel, Treffynnon, ers

tua deng mlynedd gyda'i wraig Elisabeth a'i ddau fab, Alun ac Aled. 'Roedd yn ŵr hynod o garedig, tyner ei ffordd gyda phlant a pharod ei gymwynas i bawb bob amser. Bydd y golled i'w deulu a'i gyfeillion yn fawr. Bu Cled Rhos Ddu, fel yr adwaenid ef gan ei gyfeillion, yn gweithio yn Chwarel Dinorwig am flynyddoedd ac wedyn yn y Waunfawr cyn ymadael am Dreffynnon.

Ei brif ddiddordebau mewn bywyd oedd ei deulu a'i hoffter o ganu. Bu'n arweinydd y gân yn y Capel Mawr, Llanrug am gyfnod a bu'n aelod gweithgar gydag amryw o gorau y cylch. Yr oedd ganddo lais tenor hyfryd iawn a gwnaeth lu o gyfeillion pan fyddai'n cystadlu mewn eisteddfodau pan oedd yn ifanc. Ennill neu golli, yr un fath byddai Cled bob amser, dyna oedd ei natur, mewn canu, mewn bywyd, a dyna paham mai ffrindiau oedd ganddo ac nid gelynion.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL — Mewn cyfarfod gynhaliwyd lonawr 30 bu Mr Emrys Owen, 51 Bro Rhyddallt yn rhoi Trem yn Ol ar ei fywyd. Llywyddwyd gan Mr G. Jones-Evans, a diolchwyd iddo gan Mr Ifor Williams, Gwelfryn a Mrs Amy Smith, Llechwedd. Nos Fawrth, Chwefror 20 cafwyd cyfarfod diddorol iawn yn gwrando ar Mrs M. Lloyd Williams yn son am 'Hen Gymeriadau'. Talwyd diolch i Mrs Williams gan Mrs Nesta Pritchard, Glanfa a Mr T.W. Thomas. Llywyddwyd gan Mr Glynne Owen, Llys Eryri.

CYDYMDEIMLIR — â Mr G. Jones-Evans, 39 Bro Rhyddallt yn ei brofedigaeth o golli brawd yng Nghaernarfon.

MERCHED Y WAWR — Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen nos Fawrth, Chwefror 13. Y siaradwr gwadd oedd y Parch. Harri Parri, Caernarfon, a'i bwnc oedd Mr Owen, 'dyn y ddafad wyllt'. Mrs N. Lovatt oedd yn y gadair. Diolchwyd iddo gan Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach.

Rhodddwyd adroddiad o'r Pwyllgor Rhanbarth gan Mrs Mary Roberts, Bedw Gwynion.

Mrs Robert Griffith, Mrs Gwenda Thomas, Mrs Vera Williams a Mrs Sheila Williams a ddarparodd luniaeth, a diolchwyd iddynt gan Mrs Margaret Jones.

Enillwyd y raffl gan Mrs M.R. Thomas, Berwyn. Penderfynwyd rhoddi £10 at offer y galon i ambiwlans. Bydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol Brynrefail ar ffurf Eisteddfod Cylch Eco'r Wyddfa ar Mawrth 8. Croeso cynnes i'r cyhoedd. Mynediad 30c. Dechreuir am 7.30 p.m.

LLONGYFARCHIADAU — i'r Seindorf a ddaeth yn gyntaf yn y 'Wilson Championship Contest' a gynhaliwyd yn Bolton ar Chwefror 18. 'Roedd pedwar ar ddeg o fandiau yn cystadlu mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn. Cawsant feiriadaeth dda iawn ac 'roeddynt bedwar marc ar y blaen i'r ail. Llanrug oedd yr unig seindorf o Gymru a gymerodd ran. Dymunant ddiolch i'r rhai ddaeth gyda hwy yno i'w cynorthwyo a'u cefnogi. Diolch hefyd i'r Parch. Gwynfor Williams am gael benthyg Ysgol Glanmoelyn. Edrychent ymlaen 'nawr at gystadleuaeth yn Pontin's Southport ar Ebrill 13.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD (Capel Mawr) — Nos iau, Chwefror 8 caed Noson Goffi. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan y llywydd, a derbynwyd rhoddion gan chwiorydd a fethai fod yn bresennol oherwydd gwaeledd. Anfonwyd cofion atynt.

Cafwyd yr adroddiad ariannol gan y trysorydd, Mrs M. Jones, Ogwen. Diolchwyd i'r ysgrifenyddes: Mrs Beryl Thomas, Gerallt a Mrs Jones, Ogwen am eu llafur ar hyd y flwyddyn, gan y llywydd, Mrs W.O. Roberts, Anedd

Wen. Diolchwyd hefyd i'r holl aelodau am eu ffyddlondeb. Rhoddwyd y coffi gan Mrs Ceridwen Jones, Eryri a Mrs Nan Jones, Gorwel a diolchwyd iddynt gan y llywydd.

PRIODAS — Yn Eglwys y Santes Fair, Gosforth, Cumbria ar Ragfyr 28 priodwyd Dr. J.O. Ellis, unig fab Mr a Mrs G.E. Ellis, Treflan a Lorraine, unig ferch Mr a Mrs M.E. Ginniff, Stoneleigh, Gosforth. Dymunwn bob bendith a hapusrwyd i'r pâr ieuanc.



ROBERT BURNS LLANRUG

Daeth y bardd Albanaidd Robbie Burns â hanner canpunt i goffrau'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaernarfon y mis diwethaf.

Cynhaliwyd noson Burns yn Llanrug ychydig yn ôl gyda bwyd traddodiadol o Haggis a stwnsh rwdan a Wisgi Albanaidd a gyfranwyd tuag at yr achlysur gan Gwmni o Ddistyllwyr yr Alban.

Idwal a Beth Ann Williams fu'n gyfrifol am y noson. Y mae Beth Ann ar bwyllgor Cronfa Lleol Llanrug ac y mae gan ei gŵr gysylltiad â'r Alban gan iddo gael ei ddwyn i fyny yno.

Yr oedd y ddau yn awyddus i ddathlu Gŵyl Burns a beth well na chyfuno'r dathlu â chodi arian at y Genedlaethol.

Daeth a £50 i'r coffrau.

**Cefnogwch
Ein
Hysbysebwyd**

Gwesty Dolbadarn

Tŷ

Rhydd-

Feddiant

Llanberis

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog

Aneuryn

Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS

NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd

CANOLFAN DRECIO

Holwch am ein

telerau rhesymol



Llyfrau

BRAD YN Y BRYNIAU — Valere Depauw/Dilys Price

Llyfrau ar gyfer Llyfrgelloedd yn unig yw'r ddau lyfr a ganlyn:

Yng ngwlad Basg y lleolir y stori gyffrous hon a cheir ynddi gyfuniad da o antur a serch. Ond pan fo gwlad fechan fel hon yn ymladd am ei rhyddid a'r E.T.A. (y Mudiad Cenedlaethol) yn cael ei erlid gan y *Guardia Civil*, mater o hap a damwain ydyw serch, yng nghanol y brad, yr ofn, yr erlid a'r cynnwrf. Dau aelod o'r Mudiad ydoedd Kepa a Miren, yn cyflawni eu dyletswydd dros eu gwlad. 'Roedd brawd Miren wedi cael ei ladd trwy frad. Pwy oedd y bradwr? Nid ar chwarae bach y gellid croesi'r ffin yn y mynyddoedd rhwng Sbaen a Ffrainc a heddlu Sbaen mor wylidwrs, ond croesi oedd raid a hynny, o bosib, yng nghwmni bradwr.

CYSGOD YN Y DYFFRYN — W. H. Boore/Mary Jones:

"Cymdeithas glos fu Bryncoed erioed: wedi'r nos Fercher honno daeth yn fwy clos hyd yn oed. Yr oedd y brynau fel petaent yn nes ac yn fwy pwrpasol, ac yn fwy dirgel. A thybiai Biggins fod yr awyr, a gawsai'n llawn geiriau cynnes, parod, yn mynd yn llymach. Sais unig ydoedd ymhlith Cymry, ac nid oes unigrywdd llymach na hynny. Edrychai Evans y cwnstabl, hyd yn oed, fel pe bai'n gas ganddo; pumed golofn Scotland Yard y galwai Owen y tafarnwr ef, a hynny yn ei wyneb.

"Ond 'does bosib, Mr Owen," meddai Evans. "Allwch chi ddim diodde' llofruddiaeth."

"Dyw llofruddiaeth ddim o 'musnes i,'" meddai Owen. "Ond amau un o'n pobol ni, — alla' i ddim diodde' hynny ar unrhyw gyfri."

"Ond beth os yw e'n euog?" gofynnodd Evans.

"Dim ond gwneud y peth yn waeth mae hynny," meddai Owen.

WAUNFAWR

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL — Mewn pwyllgor a gynhaliwyd yn ddiweddar yr oedd yn bleser deall fod y Gronfa Leol wedi cyrraedd y swm o £1,979 allan o'r nod o £2,000 a osodwyd i'r pentref.

Penderfynwyd peidio trefnu rhagor o weithgareddau ar hyn o bryd ond deallir fod un neu ddau o fudiadau yn y pentref eisoes wedi trefnu noseithiau i godi arian.

LLONGYFARCHIADAU — I'r Heddwas Robert Cotton, mab Mr a Mrs Cotton, Bryn Hyfryd (Y Llythyrdy gynt), ar ei lwyddiant gyda'r Heddlu. Ymunodd â Heddlu Gwynedd ddwy flynedd yn ôl, ac ar ddiwedd ei ddwy flynedd, dyfarnwyd Robert yn swyddog ar brawf uchaf yng ngogledd Cymru. Anrhegwyd ef ym mhrif swyddfa'r Heddlu ym Mae Colwyn a chwpan arian, 'Windgate'. Cafodd ei addysg yn Ysgol Gynradd y Waunfawr; Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon a Chanolfan Hyfforddi'r Heddlu yng Nghwmbran. Ar hyn o bryd mae'n heddwys ym Mhen y Cae ger Wrecsam.

ADREF O'R YSBYTY — Croeso adref i Mrs A. Johnstone, Tŷ Gwyn; Mr Gwion Davies, Bryn Eithin; Mr Cennin Griffiths, Bronallt; Mr Evan Hughes, 10 Bro Waun.

CLWB GWYRFAI — Er gwaethaf y tywydd garw mae aelodau'r clwb wedi gallu ymgynnull fel arfer yn Neuadd yr Eglwys.

Cafwyd dau gyfarfod diddorol yn ystod mis Ionawr. I ddechrau'r tymor cafwyd sgwrs amserol iawn gan Mr Oswy Rees, pennaeth Gwasanaeth Les Arfon. Ddiwedd y mis, Mr W. Vaughan Jones, MCHS., Caernarfon fu'n dangos ffilmiau o'i ymweliad â Taiwan, gyda rhagymadrodd ddiddorol ar arferion y wlad.

Yn ystod Chwefror, Miss Owen, cynfetrion Ysbyty Eryri a Bryn Seiont a Mr Siôn Rhys Jones, fydd ein gwsteion.

SEFYDLIAD Y MERCHED — Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn yr ysgol nos Iau, Chwefror 1. Llywyddwyd gan Mrs Katie Jones. Rhoddodd longyfarchiadau i Mrs Miles ar enedigaeth wyres fach, ac i Mrs Eira Taylor ar enedigaeth mab bychan. Dymunodd adferiad buan i Mrs Alice Johnstone. Rhoddodd Mr O.E. Evans y gwr gwadd, gyda chymorth gan ei wraig, sgwrs ddiddorol ar 'Addurno Ffynhonnau'. Diolchodd Mrs Catherine Jones iddynt ar ran y Sefydliad.

Rhoddodd Mrs Morfa Evans y blodau i Mrs Alice Johnstone.

Enillwyd y raffl gan Mrs Nesfield ac enillydd y gystadleuaeth oedd Mrs Doris Robert. Y gystadleuaeth at y mis nesaf yw 'Addurno 6 Cacen Fach'.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd yr Eglwys, nos Iau, Mawrth 1, pryd y bydd yr aelodau yn dathlu Gwyl Ddewi.

MERCHED Y WAWR — Gan fod Mrs Catherine Jones wedi methu bod gyda ni i ddangos 'Ysgol Pendalar ar Ffilm' oherwydd fod y peiriant wedi torri, treuliodd nos Iau, Ionawr 25 yn paratoi ar gyfer Eisteddfod Merched y Wawr Cylch Eco'r Wyddfa, sydd yn cael ei chynnal ar Fawrth 8. Gwestion y te oedd Beryl Jones, Lyn Roberts a Jenny Jones. Enillydd y raffl oedd Iona Williams.

Oherwydd yr eira ni chafwyd y prynhawn 'Te a Chrempog' ar Chwefror 15. Gobeithiwn drefnu prynhawn arall yn weddol fuan.

Bydd y cyfarfod nesaf o Ferched y Wawr ar nos Iau, Mawrth 22 yng nghwmni Dr Eirwen Gwynn a fydd yn siarad am 'Iechyd drwy Fwyta'.

Yn y cyfamser daliwch ati i ymarfer at yr eisteddfod.

Dymunwn adferiad buan i'n

hysgrifennydd, Glenys Williams, a fu yn yr ystyby yn ddiweddar.

YR YSGOL FEITHRIN — Yn Neuadd yr Eglwys ar Chwefror 20 cafwyd gwledd gan Theatr Bara Caws yn eu cyflwyniad o 'Bargen' sef rhaglen o deyrnged i'r chwarelwyr a'u teuluoedd a ddioddefodd anghyfiawnder gydag urddas tawel a'r gobaith 'Trech Gwlad nag Arglwydd'. Bu'n noson hynod o lwyddiannus a daeth nifer dda iawn ynghyd. Ar ddiwedd y perfformiad dewiswyd Heather Wyn Jones yn frenhines y carnifal am eleni.

Cofiwch hefyd am ein Swper Gŵyl Ddewi ym Mhlas Tan Dinas, nos Fercher, Mawrth 14. Bydd y bws yn gadael y pentref am 7.30 — pris y bwyd, y bws a'r adloniant fydd £2. Bargen arall!

Mae'r tocynnau ar gael gan: Mrs Rhian Jones, Tŷ Capel; Mrs Irene Roberts, Pant Teg a Mrs Eluned Roberts, Swyn y Gwynt.

YR AELWYD — Bydd Theatr Bara Caws yn ymweld a'r Waunfawr eto am 7.30 nos Fawrth, Mawrth 13. Yn Neuadd yr Eglwys byddant yn diddori'r Aelwyd gyda'u cynhyrchiad ar gyfer ieuenctid: 'Anturiaethau Sel U Lloyd'. Croeso cynnes i bawb.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL — Daeth criw da ynghyd nos Lun, Chwefror 5 i weld ffilm gan Ieuan Owen y codwr pwysau o Gaernarfon, ar 'Chwaraeon y Gymanwlad — Edmonton 1978'. 'Roedd hon yn ffilm arbennig o dda ac yn dyst o fedr a chreffft lauan a'i bartner Glyn Jones. Gyda sgript fywiog, offer sain a miwsig crewyd rhywbeth byw a chyffyrddus allan o gannoedd o luniau llonydd. Fel y gellid disgwyl, rhoddodd y ffilm bortread manwl o fywyd yr athletwr yn ystod y Chwaraeon. Cafwyd hefyd gip-olwg ar y pethau bychain hynny ym mywyd bob dydd y Canadiaid a gosodd ddychymyg Ieuan. Diolchodd Mr O.T. Jones i Ieuan a Glyn gan eu llongyfarch am greu ffilm gwerth chweil. Mr Rol Williams oedd yn llywyddu'r cyfarfod.

Cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor presennol nos Lun Chwefror 19. Er na chafwyd y sbri o gael mynd allan i wleda eleni, fe glowyd y Gymdeithas yn hapus a hwyliog. 'Roedd Rol Williams a Rob Jones wedi tynnu allan raglen o gystadleuthau ysgafn ond gan na allodd Rob fod yn bresennol Rol oedd yr un fu wrthi yn procio'r chwarae. Diolchodd Ifanwy Rhisiart i Rob a Rol am eu gwaith. Manteisiodd hefyd ar y cyfle i ddiolch i'r aelodau am ymateb mor garedig bob tro y bu ar eugofyn yn ystod ei blwyddyn fel ysgrifennydd. Yn ystod y cyfarfod etholwyd y pwyllgor canlynol: Siôn Rhys; Mrs Margaret Owen; Mrs Greta Hughes; Mrs Katie Wyn Jones; Mrs Beti Griffith; Mr Idris Owen; Mrs Catherine Jones; Mrs Rhian Ellis ac Ifanwy Rhisiart. Byddai aelodau'r pwyllgor yn falch iawn o gael awgrymiadau ynglŷn â rhaglen y tymor nesaf.

PLANT Y CYLCH MEWN PASIANT

Bydd yr actor Clive Roberts mewn awyrgylch tra gwahanol i'r un y tu ol i far y Deri Arms yng Nghwmderi rhwng hyn a'r wythnos gyntaf yn Awst. Cytunodd perchennog tafarn Cwm Deri gynhyrchu pasiant plant ysgolion Cynradd yn Arfon wedi ei sylfaenu ar 'Feibl y Plant'.

Lluniwyd sgript 'Dyma Feibl' gan Gareth Maelor, Harri Parri, Ifan Roberts ac R. Maldwyn

SEINDORF ARIAN WAUNFAWR 1933



Llun a dynnwyd yng Ngharnifal Porthmadog 1933.

Rhes ol: (O'r chwith i'r dde): Morris Williams, Groeslon, (casglwr); John Richard Hughes, Ivy House (John Rich); Henry Iestyn Griffith (Harri Gorffwysfa); William Pierce (Wil Pant Cerrig); Edward Pierce (Ned Pant Cerrig); John Griffith Jones, Gorffwysfa, Llanrug; Robert Emrys Griffith (Bob Gorffwysfa); Llewelyn Jones, Rhosgadfan (Llew Gors Goch); Emyr Jones (Emyr Ty'n Ceunant); Tom Trevor, Cae Ffynnon; Owen John Jones, Bryngwyn Terrace, Llanrug (Now John); Chwaraewr cornet o Lan Ffestiniog (yn helpu am y dydd); Thomas Hughes, Llys Meredydd (Ysgrifennydd y Seindorf); David Trevor, Bro Dawel, (Arweinydd). Rhes Ganol: Arthur Lloyd Pierce (Arthur Pant Cerrig); Richard Trevor Williams, Aneddle (Dic Trevor); John Ellis Griffith, Arfryn (John El); Robert D. Roberts, (Robin Crydd); John Thomas, Groeslon; Glyn Owen (Glyn Glan Gors); Robert Minshull, Pen Dwr Oer (Bob Minshull); Eddie Gwyrfa Jones, Graianfryn (Ned Gwyrfa).

Y Rhes Flaen: Edward Jones (Ted y Crydd); Edwin Hughes, Rhosgadfan (Ned Gors Goch); John Parry, Bryn Heli, Llanrug (John Parry Bach); Owen Eryri Jones, Llanrug (Now Eryri); Robert Evan Owen, Llanrug (Robin Ifan Bach); Richard Pierce (Dic Pant Cerrig); Y bachgen bach ar lin Eddie Gwyrfa yw Tegid Hughes, Llys Meredydd (mab yr ysgrifennydd).

Y llun trwy garedigrwydd Emyr Jones, Llwyn Celyn, Lon Ddewi, Caernarfon.

YN EISIAU

Hen Lyfrau Cymraeg

Pob peth newydd ar gael fel arfer

LLYFRAU — RECORDIAU — CARDIAU

SIOP Y PENTAN

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS
CAERNARFON (Ffôn: 5262)

ANGEN STIWARDIAID

Bydd angen 350 i 400 o stiwardiaid yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaernarfon fis

Thomas ac fe'i perfformir gan blant ysgolion cynradd bro'r Eisteddfod, nos Fawrth, Awst 7.

Disgrifir y pasiant fel 'strybedi o olygfeydd i gyflwyno mewn idiom gyfoes rai o binaclau'r Beibl' yn seiliedig ar 'Feibl y Plant, a gyhoeddwyd y llynedd.

"Ceisiwyd defnyddio cymaint o wahanol gyfryngau a phosibl i gyfleu y doniol a'r dwys fel y'u ceir yn y Beibl ac i drosglwyddo'r neges ganolog gan ddechrau gyda'r creu a chloi gyda'r Atgyfodiad", meddai Mr Aled Roberts, Prifathro Ysgol Gynradd y Bontnewydd a chadeirydd y Pwyllgor sy'n trefnu'r pasiant.

Cymerir rhan gan 600 o blant ysgolion y cylch gyda chor o 300. Y gorfeistres yw Miss Gwendolen Jones, Prifathrawes Ysgol y Gelli, Caernarfon.

Awst nesaf, ond yn ôl Mr Eric Jones, sy'n Brif Stiward gyda Mr Wyn Barton, dim ond 170 sydd wedi dychwelyd eu ffurflenni stiwardio hyd yn hyn a dim ond rhyw 15 o'r rheini sydd o gylch Caernarfon ei hun.

"Er mwyn cael trefnu pethau'n iawn y mae'n bwysig fy mod yn cael gwybod cyn gynted â phosibl gan bobl a ddymunant fod yn stiwardiaid", meddai Mr Jones o Afallon, Y Groeslon.

Ychwanegodd ei bod yn dra phwysig cael digon o bobl leol yn stiwardio.

"Wedi'r cyfan bydd yn rhaid i lawer ohonynt fod yn wybyddus a daearyddiaeth Caernarfon fel y gallant gyfeirio pobl o le i le," meddai.

Bydd y stiwardiaid yn gweithredu yn y Pafiliwn, ar y Maes, mewn pebyll megis y Babell Llen, drama, Celf a Chrefft ac ati ac yn y cyngherddau a'r dramâu gyda'r nos, sy'n rhoi cyfle iddynt nid yn unig gyfrannu at lwyddiant yr Ŵyl ond ei mwynhau yr un pryd.

Dyddiadur y Mis

Mawrth 1, Iau: CWM-Y-GLO - Y Clwb Ieuenctid. WAUNFAWR - Sefydliad y Merched yn dathlu Gwyl Ddewi.
 2, Gwener: DINORWIG - Dydd Gweddï Byd-Eang y Chwïorydd yn Eglwys Sardis am 2 o'r gloch. PENISARWAUN - Dydd Gweddï Byd-Eang y Chwïorydd yng Nghapel Bosra am 6 o'r gloch. DEINIOLEN - Apel Gwaun Gynfi - noson o 'Frethyn Cartref' am 7 o'r gloch yn Ysgol Gwun Gynfi. LLANBERIS - 1) Cronfa Eisteddfod '79 - Noson Goffi a Chrempog yn y Ganolfan am 7.30.
 2) Clwb yr Henoed. YR ARDAL - Cinio Gŵyl Ddewi Clwb Eryri.
 Mawrth 5, Llun: PENISARWAUN - Cyfarfod Blynnyddol Undeb y Mamau dan lywyddiaeth Mrs G. Williams. DEINIOLEN - Swper Gŵyl Ddewi yr Henoed. LLANBERIS - Clwb Methedig Eryri. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30.
 6, Mawrth: LLANBERIS - Pwyllgor Lleol 'Steddfod '79 yn Festri Gorffwysfa am 8 o'r gloch.
 7, Mercher: LLANBERIS - Clwb y Mamau yn dathlu Gŵyl Ddewi. Y Gymdeithas Ddrama.

8, Iau: CWM-Y-GLO - Y Clwb Ieuenctid. LLANBERIS - Eisteddfod Capeli Llanberis a Nant Peris yng Nghapel Gorffwysfa. YR ARDAL - Merched y Wawr - Eisteddfod Cylch Eco'r Wyddfa yn Ysgol Brynrefail am 7.30. Yn agored i'r Cyhoedd. Mynediad 30c. LLANBERIS - Cinio Gŵyl Ddewi Clwb yr Henoed yn y Victoria am 12.30.
 9, Gwener: LLANBERIS a NANT PERIS - Eisteddfod Capeli Llanberis a Nant Peris yng Nghapel Gorffwysfa.
 10, Sadwrn: LLANBERIS - Cangen Plaid Cymru yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Victoria.
 12, Llun: LLANBERIS - Clwb Methedig Eryri. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30
 13, Mawrth: WAUNFAWR - Yr Aelwyd - Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Anturiaethau Sel U. Lloyd'.
 14, Mercher: CWM-Y-GLO - Gyrfa Chwist. WAUNFAWR - Yr Ysgol Feithrin - Swper Gŵyl Ddewi ym Mhlas Tan Dinas. BETHEL - Cinio Gŵyl Ddewi Merched y Wawr. LLANBERIS - Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan.
 15, Iau: CWM-Y-GLO - Y Clwb Ieuenctid.
 16, Gwener: LLANBERIS - Clwb yr Henoed.
 19, Llun: LLANBERIS - Clwb Methedig Eryri. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30.
 21, Mercher: CWM-Y-GLO - Merched y Wawr. LLANBERIS - Clwb y Mamau.
 22, Iau: CWM-Y-GLO - Y Clwb Ieuenctid. WAUNFAWR - Merched y Wawr - noson yng nghwmni Dr. Eirwen Gwynn.

23, Gwener: DEINIOLEN - Apel Gwaun Gynfi - Disgo i'r plant iau yn Ysgol Gwaun Gynfi. LLANBERIS - Noson Goffi ac Adloniant gan adran plant hynaf yr ysgol yn Ysgol Dolbadarn.
 24, Sadwrn: LLANRUG - Disgo dan nawdd y Clwb Pêl-droed yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis.
 26, Llun: LLANBERIS - Clwb Methedig Eryri. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30
 28, Mercher: CWM-Y-GLO - Gyrfa Chwist. BETHEL - Clwb y Mamau. LLANBERIS - Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30
 29, Iau: Y Clwb Ieuenctid. LLANBERIS - Sefydliad y Merched.
 30, Gwener: LLANBERIS - Clwb yr Henoed. Dawns a Bwffe yng Ngwesty'r Victoria.

DYDDIADAU I'W COFIO

EBRILL 6 - Noson o Gyw Iâr/Bingo yng Ngwesty'r Gwynedd - at Gronfa 'Steddfod '79.
 EBRILL 4 - Apêl Gwaun Gynfi - Darlith gan y Parch. J. Alun Roberts.
 EBRILL 11 - Eglwys y Tabernacl, Deinïolen - Dadorchuddio cofeb i'r diweddar Barch. George W. Brewer, MA., BD.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW



BP heat



Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

Cefnogwch Ein Hysbysebwy

CROESAIR RHIF 29

1	P	A	2	G	A	3	N		4	H		5	L	E	I	D	6	R
	L			R		7	E	D	E	N								W
	A		8	O	E	N			N		9	C	A	L	E	B		
	T			E		10	F	I	O	L	A							E
11	I		S				W									12	O	L
	A			L			13	D	I			15	W			16		
17	U	N	O													18	R	A
			20	N	O	21	D	I	A	N	22	T						E
23	D	A					W									24	F	O
	A					25	S	A	N	A	U							Y
27	F	A	I	N	T				A			28	E	L	W			DD
	A					29	S	I	A	N								W
30	D	I	E	N	W				N			31	I					R

- Un o ffrindiau Blodyn Tatws (5)
 - Math o grwth (5)
 - Daioni (3)
 - Marc (2)
 - Maen gwerthfawr (7)
 - Cysylltu (3)
 - "Dau yn unig oedd yn y ..." (3)
 - Dull o ddangos seiniau mewn cerddoriaeth (7)
 - Cyfiawn (2)
 - "Un dafn o'i ... sydd ... imi" (3)
 - Gwisg i'r traed a'r coesau (5)
 - Pa swm (5)
 - Budd (3)
 - Ddaw hi byth allan efo Siôn (4)
 - Anadnabyddus (5)
 - Safon llai (5)
- I LAWR:**
- Llestri (7)
 - Pentref yn Arfon (8)
 - To ystafell (6)
 - Y noson hon (4)
 - Cerrig geirwon (5)
 - Hydd (4)
 - "Diolch ... Arglwydd mawr" (3)
 - Ynys (3)
 - Rheolwyr (8)
 - Un sy'n astudio'r ffurfafen (7)
 - Trawst (4)
 - Tosturi (6)
 - Mamog (5)
 - Perthynas (4)

Enw _____
Cyfeiriad _____
 Anfoner y cynigion fel arfer i: Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis.

- AR DRAWS:**
- Anghredadun (5)
 - Ysbeiliwr (5)
 - "Yn ... cofiaf hynny byth" (4)
 - Bach y ddafad (3)

Cyfrifir y llythrennau canlynol fel UN llythyren:
 ch; dd; ff; ng; ll; ph; rh; th
 Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir wedi i'r holl gynigion ddod i law.

CHWARAEON

Doctor yn codi cur yn y pen

AETH tudalen ôl *Eco* r mis diwetha' i'w gwely a minnau'n fodlon fy mod wedi gweld a chlywed yr olaf am y Dr. R.H. Mills Roberts, MRCS., LRCP. 'FUM I ERIOED CYN BELLED O'M LLE! Fe gofiwch iddo godi ei ben yn gyntaf pan ymddangosodd ei lun fel un o hen golgeidwaid Llanberis. Peth naturiol ar ôl clywed ychydig o'i hanes oedd ceisio ymchwilio ymhellach i'w gefndir, ac yn wir, daeth llythyr gan berthynas iddo yn ein hannog i wneud hynny. Derbyniais, yn ddigon teg mi gredaf, fod y darlun a ymddangosodd y mis diwethaf, a'i enw oddi tano (yn y gwreiddiol) fel golgeidwad, a'r wybodaeth a ddaeth drwy law Mr H.R. Jones, o Preston North End, rhyngddynt yn bortread gweddol gyflawn o'i yrfa fel pêl-droediwr. DAETH DRWY'R POST YN YSTOD Y MIS DDAU LYTHYR SY'N TAFLU AMHEUAETH AR Y CYFAN A 'DDARGANFUWYD'.

O'r Rheithordy, Llannor, gan y Parch. Herbert Thomas y daeth y cyntaf, "Wrth gwrs" ysgrifennodd "nid Dr. Mills yw'r golgeidwad. Buasai'n 49 mlwydd oed erbyn hynny ac wedi rhoi'r gorau i chwarae o ddifrif ers blynyddoedd... credaf, mai rhywun arall yn y llun yw'r Doctor". Efallai, ond credwn bellach fod hwn yn rhyw fath o 'superman' a mentrais berswadio fy hun fod cof Mr Thomas yn dechrau pallu, hynny yw, nes daeth y post trannoeth â llythyr o Flaenau Ffestiniog, gan Mr Henry Parry:

"Nid wyf yn derbyn", meddai hwn, "mai 5'8½" oedd ei daldra... ac ni choeliaf mai 11 stôn ydoedd" — a dyna ystadegau Preston North End wedi eu malurio a chwalu i'r pedwar gwynt!

Bydd llythyr Mr Parry yn ymddangos yn llawn yn rhifyn nesa'r *Eco*, gan fod ynddo storiâu hynod o ddiddorol am dad y Dr. pan yn rheolwr chwarael Oakley'r Blaenau. Os mai Sant Ysbyty'r Chwarael oedd y mab, ymddengys mai diawl y chwarael oedd y tad!

I'm hachub o'm penbleth, felly, fe ddilyn yr hyn a gredaf sy'n 'ffeithiol' am y meddyg, gan obeithio fod rhywun yn rhywle all ddatod y clymau, neu, wrth gwrs, ddangos i mi fy mod yn anghywir eto! Mae'r 'ffeithiau' isod yn gryn-odeb o'r hyn a ddarllenais amdano hyd yma, ac fel y gweler, y mae peth croes-ddweud ynddynt.

Fe'i ganed, neu o leiaf 'roedd ei gartref ym Mhenmachno/yn Rhiw Bryfdir, Blaenau Ffestiniog/ym Mhlas Meini, Llan Ffestiniog. 'Roedd yn un o dri brawd, y tri yn Ddoctoriaid a dau ohonynt yn adnabyddedig fel Dr. Mills Roberts — bu un o'r brodyr yn gweithio yn Ysbyty Chwarael y Penrhyn.

OES BOSIB' FOD SAIL YN HYN I GAMGYMERIADAU? Enillodd wyth cap i Gymru a bu'n chwarae, ymhlith llawer o glybiau eraill, yn cynnwys Llanberis a Rhiw Bryfdir, i Preston North End (ond pam felly yr ystadegau anghywir?)

Bu'n cynrychioli ei Goleg mewn chwe sbort, a dangosodd allu eithriadol fel paffiwr.

Mae stori amdano yn ardal Ffestiniog yn eistedd ar ben traws y gôl pan oedd penalti yn ei erbyn, yn disgyn ac yn ei hatal. Mae stori amdano yn ardal Llan-

beris yn rhoi sialens i'r holl wylwyr cyn gemau tîm y pentref i geisio sgorio heibio iddo o'r smotyn gwyn ac i bawb fethu.

Y mae hanesion lu am ei ddawn a'i garedigrwydd fel meddyg.

'Roedd o'n dipyn o Geidwadwr a Militarydd, a bu'n rhedeg cangen o'r Volunteers yn Llanberis. Bu'r Colonel Mills Roberts yn feddyg yn Rhyfel De Affrica a bu'n gwasanaethu yn y Rhyfel Byd Cyntaf, yn Lieut. Colonel erbyn hynny.

Cyhoeddodd, a rhannodd filoedd o bamffledi ymysg y chwaraelwyr yn eu rhybuddio rhag yfed gormod o de, ac i fwyta cyn gymaint â phosib o foron!

Hen lanc ydoedd. Fe'i claddwyd yn Ffestiniog.

'Rwyf bron â dod i'r casgliad fod hanes y ddau frawd, a'u henwau a'u cefndir mor debyg wedi eu cymysgu yn rhywle. Byddai hynny'n ddatblygiad dealladwy o gefndir un a ddaeth bellach bron yn chwedl. Wedi'r cwbl, dangosodd yr *Eco* yn y misoedd diwethaf fod o leiaf dair Marged Uch Ifan, ple ynghynt priodolwyd anturiaethau'r tair i un ferch.

Y mae ôl-nodyn yn llythyr Mr Thomas, ynglŷn â darlun y mis diwethaf. Credais ei fod yn gwybod popeth am dimau a chwaraewyr Llanberis, ond mae arno eisiau gwybod pwy yw Latta Jones. Clywodd Mr Thomas Jones, oedd yn Ganolwr cyn, ac ar ôl y Rhyfel, yn sôn am Latta Bach, ac yn ei ganmol yn arw fel chwaraewr. Credai'r canolwr ei fod yn dod o Lerpwl, ond ni chlywodd Mr Thomas neb arall yn sôn amdano. Oes rhywun all ei helpu? Pwy oedd Latta Jones?

PENCAMPWRIAETH 'S BOB OCHR' YSGOLION ARFON

Daeth tîm o fechgyn Ysgol Brynrefail yn ail yn y gystadleuaeth hon i rai dan 14eg oed yng Nghanolfan Porthmadog ar Chwefror 14, gan gollu yn y rownd derfynol i Ysgol Eifionydd o dair gôl i un. Canlyniad ardderchog o gofio fod y fantais gan hogia Port o chwarae yn y Ganolfan yn wythnosol. Ar eu ffordd i'r ffeinal gorchfygwyd ganddynt dimau o Gaernarfon, Pwllheli a Botwnnog. Cynrychiolwyr yr ysgol oedd Adrian Wakeham, Paul Jones, Desmond Hughes, Chris Jones a John Williams, y chwaraewyr wrth gefn, Michael John Williams a Dilwyn Morris.

Pêldroed

Llwyddodd y tymor pêl-droed i ryddhau ei hun ychydig o grafangau'r rhew a'r eira yn ystod y mis, ac ni fethodd timau Cynghrair Arfon â chwarae ond ar un Sadwrn. Bu'n fis tra llwyddiannus hefyd, ac o ganlyniad wele Llanrug a Llanberis yn cyferthu eu gafael ar frig y gynghrair.

LLANBERIS

3/2/79:

Sunblest 2 Llanberis 0

Yr unig fethiant mewn mis llwyddiannus, ac ar ôl disgwyl saith wythnos i gael ail chwarae'r gêm gwpan yma yr unig rai o'r ardal sydd ar eu hennill yw cefnogwyr Llanrug hynny sy'n hoff o adrodd (ac ail adrodd) nad oes ond bara Mother's Pride ar werth yn Llanberis bellach!

Yn yr ail hanner y sgoriwyd y ddwy gôl, ac er i Lanbêr berfformio'n bur dda ar y cyfan, 'doedd dim digon o bŵer ganddynt i roi'r dorth yn y popty!

10/2/79:

Hirael 0 Llanberis 3

Yn Llanberis y dylid bod wedi chwarae hon, ond gan fod eu cae wedi rhewi'n galed fe'u symudwyd i Fangor. Ni fu'r symud, na'r gwynt cryf a dueddai ddifetha'r chwarae da er hynny o fudd i Hirael a daeth goliau Iwan Evans, Gwilym Williams a Ray Harding â'r pwyntiau'n ôl i Lanber.

24/2/79:

Llanberis 9 Nefyn 0

Gêm unochrog i ddweud y lleiaf, a manteisiwyd ar y cyfle i leihau ar ragoriaeth Llanrug yn nhermau gwahaniaeth goliau. Ray Harding wnaeth orau gan sgorio bum gwaith, a chafwyd un gôl yr un gan Iwan Evans, John Pritchard, Einion Holland a Gwilym Williams.

LLANRUG

3/2/79:

Rownd Gyntaf Cwpan Alves

Llanrug 5 Porthmadog Res. 0

Curo Porthmadog yn rhwydd am y trydydd tro'r tymor hwn, a Vernon Lloyd yn sgorio tair. Gwynfor Owen a Hefin Jones yn llwyddo â'r ddwy arall.

10/2/79:

Cwpan Ganolradd Gogledd Cymru 3ydd Rownd

Llanrug 6 Halkyn 1

Cyrraedd canfed gôl y tymor yn y gêm hon, a Vernon Lloyd y tro hwn yn sgorio pedair. Dic Owen a Peter Roberts yn rhoi hwb iddo

RHEDEG TRAWS GWLAD

Bu amryw o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn cystadlu yn Nhreialon Rhedeg Traws Gwlad Ysgolion Arfon yn Friars, Bangor, ddydd Mercher, Chwefror 14.

Yn y ras i rai dan 13eg oed y gwnaeth y bechgyn orau. Daeth Neil Jones o Fethel yn gyntaf a Kevin Jones o Lanberis yn seithfed. Wele'r ddau yn y llun isod. Neil sy'n sefyll ar y chwith.



Ni fu enillydd ymhlith y genethod, ond teg cofnodi fod Julie Roberts o Lanrug yn bedwerydd a Philipa Rhodes o Fethel yn chweched yn y ras i rai dan 17 mlwydd oed, ac i Wendy Williams o Ddeiniolen ddod yn bedwaredd yn y ras i rai dan 15eg mlwydd oed.

Bydd y tair ohonynt yn cynrychioli Arfon ym Mhencampwriaethau Cenedlaethol Cymru yn Llandrindod yn ystod mis Mawrth. Pob lwc iddynt. Yn anffodus nid oes cystadleuaeth Genedlaethol i rai dan 13eg oed.



Julie, Wendy a Philipa, cynrychiolwyr yr ysgol yn y genedlaethol.

gyda'r ddwy arall. Y mae Llanrug bellach yn rownd gyn-derfynol y Cwpan.

24/2/79:

Llanrug 5 Caernarfon Res. 0

Profiad hogia Llanrug yn curo tîm ieuanc, ond addawol iawn o'r dre! Dim ond dwy gôl gan Vernon yn hon, a'r lleill gan Dic Owen, Len Padmore a John Hammond.

Y mae Vernon bellach wedi sgorio 40 gôl mewn 23 o gemau, a Dic Owen 26 mewn 19 gêm, (mwy yn wir gyda'i gilydd na chyfanswm goliau Cynghrair yr un tîm arall).

Da deall fod y gwelliannau i gae ac adeiladau'r Clwb yn parhau. Yn ystod y mis cysylltwyd cyflenwad trydan i'r holl ystafelloedd. Y mae'r ymgyrch casglu arian hefyd yn parhau, a bydd Disco yng Ngwesty'r Victoria yn Llanberis ar y 24 o Fawrth, ticedi £2 ar gael gan Mr Dafydd W. Thomas, Bron y Nant, Llanrug.

	Ch.	E.	Cyf.	Colli	O.B.	Yn E.	Pwyntiau
Llanrug	18	16	1	1	76	20	33
Llanberis	17	14	1	2	64	15	29